# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd 4 i 11 Tachwedd 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

7 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

12 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

18 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

20 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd

26 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

32 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

39 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Ymgyrch Wybodaeth y Cynulliad

**David Davies:** Pa wybodaeth ar gael i'r Prif Ysgrifennydd am berfformiad y cwmni cysylltiadau cyhoeddus Bell Pottinger Good Relations wrth drefnu ymgyrch wybodaeth y Cynulliad? (WAQ1382VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bell Pottinger Good Relations roddodd elfen gyfryngol rad ac am ddim ymgyrch wybodaeth y Cynulliad ar waith. Fe'i hisgontractiwyd i wneud y gwaith hwnnw gan Howell Henry Chaldecott Lury, yr asiantaeth o dan gontract. Mater i'r Swyddfa Wybodaeth Ganolog, a oedd yn gyfrifol, ar ran y Swyddfa Gymreig, am y contract, yw cloriannu gwaith yr asiantaeth hon. Fel sydd yn arferol dan yr amgylchiadau hyn, bernir bod y cloriannu yn sensitif yn fasnachol ac nid yw ar gael i'r cyhoedd.

### Cyfrifoldeb am Lenni

**David Davies:** Pa adran o fewn y Cynulliad neu'r Swyddfa Gymreig oedd yn gyfrifol am brynu'r llenni sydd yn hongian yn swyddfeydd yr Aelodau? (WAQ1383VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Adran Gwasanaethau Rheoli y Swyddfa Gymreig oedd yn gyfrifol am brynu'r llenni sydd yn hongian yn swyddfeydd yr Aelodau.

### Menywod ar Gyrff

**Cyhoeddus Glyn Davies:** Pa ganran o Gadeiryddion ac aelodau cyrff cyhoeddus yng Nghymru oedd yn fenywod ar 1 Ionawr 1979-96? (WAQ1540JS-1557JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r wybodaeth am ganran y menywod oedd yn gadeiryddion neu'n aelodau o gyrff cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1986 a 1996 fel a ganlyn. Mae'r ffigurau'n ymwneud â phenodiadau yr oedd y Swyddfa Gymreig yn gyfrifol amdanynt ac maent yn cynnwys cyrff NHS. Ni chadwyd gwybodaeth yn ganolog ar y ffurf y gofynnwyd amdani cyn 1986 a byddai casglu'r wybodaeth honno yn awr yn rhy gostus.

| | % Menywod yn Gadeiryddion | % Menywod yn Aelodau |
|---|---|---|
| **1996** | 15 | 25 |
| **1995** | 18 | 24 |
| **1994** | 17 | 23 |
| **1993** | 16 | 16 |
| **1992** | 16 | 18 |
| **1991** | 18 | 18 |
| **1990** | 13 | 18 |
| **1989** | 8 | 19 |
| **1988** | 12 | 20 |
| **1987** | 12 | 19 |
| **1986** | 8 | 19 |

Ar 30 Mehefin 1999, yr oedd 31 y cant o'r penodiadau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a 21 y cant o'r cadeiryddion a benodwyd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn fenywod, sydd yn cynrychioli gwelliant sylweddol.

### Cymhorthdal ar gyfer Cyrff Gwirfoddol

**Peter Black:** Pa ffynonellau cymhorthdal sydd ar gael yn uniongyrchol oddi wrth y Cynulliad i ariannu cyrff gwirfoddol ledled Cymru yn 2000-01, a pha gyllid sydd wedi'i ddarparu yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn 1998-99? (WAQ1603AG)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae mudiadau gwirfoddol yn cael cyllid o nifer o ffynonellau. Y cynlluniau grant allweddol sydd ar gael yn uniongyrchol oddi wrth y Cynulliad i gyrff gwirfoddol sydd yn gweithredu ledled Cymru yw:

- Grantiau i Ymddiriedolaethau Archeolegol yng Nghymru
- Grantiau Cynlluniau Dinesig (Treftadaeth)
- Cefnogaeth tuag at Hybu Iechyd
- Pobl Hŷn ag Anableddau Corfforol/ar y Synhwyrau – Cyrff Gwirfoddol Cymru Gyfan
- Strategaeth Salwch Meddwl Cymru
- Strategaeth Anfantais Meddwl Cymru
- Amgylchedd Cymru
- Asiantaethau gwella cartrefi/Gofal a Thrwsio
- Hybu Addysg a Hyfforddiant ac Ymarfer Da ym maes Rheoli Tai Cymdeithasol
- Y Sector Gwirfoddol ar Ddigartrefedd
- Grantiau i Fudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol
- Gweithio yn erbyn Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol
- Cefnogaeth i Wasanaethau Plant a Theulu
- Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol
- Cefnogaeth i Wasanaethau Cyfryngu Gwirfoddol

Deuai'r gwariant o dan y cynlluniau hyn i £10.646 miliwn yn 1998-99. Hyd yma mae'r symiau a ddyrannwyd yn 1999-2000 dan y cynlluniau hyn yn dod i gyfanswm o £10.790 miliwn. Caiff mwy o fanylion am y cynlluniau grant i'r sector gwirfoddol eu cynnwys yn 'Arweiniad i Grantiau Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol' a gyhoeddir tua throad y flwyddyn. Bydd copïau o'r Arweiniad ar gael o'r Llyfrgell.

### Cynllun Cymorth Prosesu Lloi (Cyfarfodydd)

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd restru dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Syr Stephen Wall, Pennaeth UKREP ym Mrwsel ac yntau, i drafod y cynllun cymorth prosesu lloi y cytunodd y Cynulliad arno ar 15 Medi; a beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny? (WAQ1616VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bu swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda swyddogion UKREP drwy gydol y cyfnod gan gyfarfod â hwy ar 5 Hydref i drafod y cynllun cymorth prosesu lloi. Bu swyddogion UKREP yn barod iawn eu cymorth ac yn gefnogol i'n trafodaethau gyda'r Comisiwn a rhoddwyd gwybodaeth imi am y trafodaethau. Nid oedd angen cyswllt uniongyrchol â Syr Stephen Wall o ganlyniad.

### Cynllun Cymorth Prosesu Lloi (Cyngor Cyfreithiol)

**Dafydd Wigley:** Pa ymdrech y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i gwneud neu y mae aelod o'i Gabinet wedi'i gwneud i geisio cyngor ei gyfreithwyr ar y cynllun cymorth prosesu lloi a basiwyd gan y Cynulliad ar 15 Medi? A ofynnwyd i gyfreithwyr y Cynulliad baratoi cynigion pendant i'w cyflwyno gerbron y Comisiwn a/neu Gyngor Gweinidogion yr UE ynghylch goblygiadau'r anawsterau a achoswyd gan y cynllun cymorth prosesu lloi? (WAQ1617VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cafodd y cais i'r Comisiwn am ganiatáu pecyn argyfwng dan gynllun cymorth prosesu lloi yr UE ei drafod gyda chyfreithwyr y Cynulliad cyn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Cyn gynted ag y daeth yr egwyddorion cyfreithiol yn glir, ceisiodd Christine Gwyther a minnau gyngor cyfreithiol i weld a ellid herio barn swyddogion y CE yn

ogystal â bwrw ati i weithredu'n egnïol o safbwynt gwleidyddol, gyda Christine yn mynd â'r neges i'r Comisiynydd Fischler. Cadarnhaodd y cyngor cyfreithiol y bu hi'n werth chweil mynd ar drywydd y cais ond nad oedd seiliau cyfreithiol digonol i herio'r safbwynt a fabwysiadwyd gan y Comisiwn.

**Ffordd Liniaru'r M4**

**William Graham:** Beth fydd effaith adeiladu ffordd liniaru'r M4 ar gynhwysiant cymdeithasol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ1633VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhaid ystyried unrhyw brosiect mawr o safbwynt ei werth uniongyrchol—yn yr achos hwn i'r seilwaith trafnidiaeth ynghyd ag addewid y Cynulliad i hybu polisïau integredig—ac yn anuniongyrchol i bolisïau trawsbynciol fel cynhwysiant cymdeithasol. Mae adfywio economaidd, creu swyddi a'r effaith gymdeithasol ar wahanol gymunedau i gyd yn faterion i'w hystyried. Bydd gofyn inni ystyried y ddadl y byddai ffordd liniaru'r M4, os caiff ei hadeiladu, yn cael gwared â thagfeydd trafffig ac yn gwella hygyrchedd yng nghyffiniau Casnewydd ac i dde ddwyrain Cymru. Mae Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd, yn gobeithio gwneud cyhoeddiad ar ddyfodol y cynllun oddeutu troad y flwyddyn, ar ôl ystyried yn fanwl yr astudiaeth fframwaith cloriannu cyffredin i'r opsiynau ar gyfer delio â'r tagfeydd traffig a ragwelir ar y drafffordd yng Nghasnewydd.

**Hysbysebion Swyddi**

**Nick Bourne:** Beth yw polisi'r Cynulliad mewn perthynas â hysbysebion uniaith Gymraeg neu uniaith Saesneg er mwyn llenwi swyddi? (WAQ1760VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Polisi'r Cynulliad ar hysbysebu swyddi yw bod y rhan fwyaf o hysbysebion yn ymddangos yn ddwyieithog yng Nghymru neu mewn mannau eraill. Ar gyfer gweddill y swyddi, lle mae'n ofynnol i ddeiliaid y swyddi weithio drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. cyfieithwyr, mae'r hysbyseb yn ymddangos yn y Gymraeg yn unig gydag esboniad byr yn y Saesneg. Mae'r polisi hwn yn sicrhau ein bod yn trin y ddwy iaith yn gydradd, yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn cadw'r costau hysbysebu cyn ised â phosibl.

**Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu**

**David Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd amlinellu sut y bydd y £1.6 miliwn a neilltuwyd ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu eleni yn cael ei wario? (WAQ1837VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart, i gwestiwn gennych ar 20 Hydref 1999, yn gofyn pam fod ar y Cynulliad angen £3.5 miliwn ar gyfer hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn y flwyddyn ariannol hon. Ei hymateb oedd:

'Yn draddodiadol, mae gweithgaredd hysbysrwydd y telir amdano yng Nghymru wedi digwydd i raddau helaeth fel ymateb uniongyrchol i wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael yn Lloegr. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae rhaniadau polisi o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru hyd yn hyn wedi neilltuo £2.4 miliwn ar gyfer gweithgaredd hysbysrwydd cyhoeddus fel diogelwch plant ar y ffordd, dim yfed a gyrru, a hyrwyddo gwasanaethau i helpu busnesau yng Nghymru.'

Nid yw'r sefyllfa wedi newid.

**Llenni**

**David Davies:** A oes unrhyw gynlluniau i brynu llenni ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ1838VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n llawer rhy gynnar yn y broses ddylunio i allu ateb y cwestiwn hwn gydag unrhyw sicrwydd. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw mai ychydig iawn o angen llenni fydd yna yn yr adeilad newydd.

### Contractau gyda HHCL a Bell Pottinger Good Relations

**David Davies:** Pa gontractau sydd gan Howell Henry Chaldecott Lury a/neu Bell Pottinger Good Relations ar hyn o bryd? (WAQ1840VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes unrhyw gontractau rhwng Howell Henry Chaldecott Lury na Bell Pottinger Good Relations a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Ymgyrch Gyhoeddusrwydd y Cynulliad (Tâl)

**David Davies:** Faint a dalwyd i HHCL a/neu Bell Pottinger Good Relations am ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd y Cynulliad? (WAQ1841VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhoddwyd contract i Howell Henry Chaldecott Lury gan y Swyddfa Wybodaeth Ganolog ar ran y Swyddfa Gymreig. Mae'r Swyddfa Wybodaeth Ganolog o'r farn fod y swm a dalwyd ganddi i'r asiantaeth yn fater sensitif yn fasnachol ac nid yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

### Colli Swyddi Bairdwear

**Michael German:** Ar ôl i'r cytundeb cyflenwi rhwng Marks and Spencer ccc a William Baird ccc gael ei derfynu'n ddiweddar, pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cymryd i liniaru effaith y swyddi a gollir yng Nghymru, ac a yw wedi cyfarfod â rheolwyr Marks and Spencer a William Baird i drafod yr effaith a gaiff hyn ar y lefelau diweithdra yng Nghymoedd y De, sydd eisoes yn uchel? (WAQ1844VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae colli swyddi yng Nghymru bob amser yn peri gofid oherwydd y dioddefaint a'r ansicrwydd a achosir i'r bobl dan sylw a'u cymunedau. Gweithiwn yn galed i liniaru effeithiau cau gweithfeydd a diswyddo pobl ac, fel y dangoswyd yn ffatrïoedd Baird ym Maesteg a Phontardawe, mae ein swyddogion ni, cynghorau hyfforddiant a menter lleol, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Gwasanaeth Cyflogaeth yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol gyda'r cwmnïau a'u gweithwyr i helpu'r rheini yr effeithir arnynt i ganfod swyddi newydd. Lle bo'r Adran yn derbyn bod lefel y diswyddiadau yn arwyddocaol, sefydlir mesurau ymateb cyflym ar fyrder i helpu'r gweithwyr yr effeithir arnynt i ailhyfforddi a chael gwaith arall. Er mwyn helpu i atal gweithfeydd rhag cau, mae Rhodri Morgan wedi gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru yn ddiweddar ystyried sefydlu 'criwiau cymorth' i gynnig help i gwmnïau sydd yn wynebu anawsterau.

Mae cyhoeddiad Marks and Spencer yn ymwneud â ffatrïoedd Baird ledled y DU a deallaf nad oes unrhyw gynlluniau i Weinidogion Llywodraeth y DU gwrdd â'r naill gwmni na'r llall, gan mai penderfyniad masnachol i'r ddau barti yma sydd dan sylw. Mae Mr David Sieff, Cadeirydd Consortiwm Adwerthu Prydain a Chyfarwyddwr gyda Marks & Spencer ccc i gwrdd â Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, yn y flwyddyn newydd, ond deallaf mai cyfarfod i drafod materion yngl n â phrisiau adwerthu, yn hytrach na chontract Baird, yw hwn.

Mae Rhodri Morgan wedi siarad yn hir â Bairdwear i ganfod yr effaith bosibl ar gyflogaeth yng Nghymru. Mae hefyd wedi trafod y materion hyn gyda swyddog llawn amser Undeb y

Gwneuthurwyr Bwyleri Bwrdeistrefol a Chyffredinol ar gyfer y diwydiant dillad yng Nghymru. Nid yw cyhoeddiad Marks and Spencer y bydd yn rhoi'r gorau i'r ddolen gyflenwi gyda Baird o'r hydref nesaf ymlaen o reidrwydd yn golygu y byddai ffatrïoedd y cwmni yng Nghymru (sydd yn cyflogi tua 1,000 o bobl) yn cau, oherwydd bydd yn mynd ati'n ddiwyd i ganfod marchnadoedd eraill i'w gynnyrch. Deallaf y bydd Baird yn canolbwyntio ar farchnata ei gynnyrch ar raddfa fwy byd-eang, a dylai hyn helpu i ddiogelu ei hyfywedd a chyfleoedd gwaith i'r dyfodol. Yn ogystal, efallai y bydd Marks and Spencer yn ceisio cyflenwr arall o'r DU ar gyfer y mathau o ddillad a gynhyrchir yn ffatrïoedd Bairdwear yng Nghymru.

Mae Rhodri Morgan a minnau yn monitro'r datblygiadau'n ofalus gyda golwg ar gynorthwyo'r cwmni a'i weithwyr ym mha ffyrdd bynnag sydd yn briodol.

## Colli Swyddi Bairdwear

**Michael German:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn unrhyw sylwadau gan CHM Gorllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru i ddelio â'r posibilrwydd y caiff nifer fawr o swyddi eu colli yn ffatrïoedd Bairdwear? (WAQ1865VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn dilyn penderfyniad Baird i gau ei ffatrïoedd ym Mhontardawe a Maesteg, cytunodd swyddogion y Cynulliad gyda chynghorau hyfforddiant a menter De Ddwyrain Cymru a Gorllewin Cymru i ddynodi'r diswyddiadau sydd yn deillio o gau'r ffatrïoedd hyn yn 'arwyddocaol' o'u cymharu â maint y marchnadoedd llafur lleol. Mae hynny'n golygu y caiff pobl eu derbyn yn fuan i'r rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ar gyfer oedolion sydd yn helpu pobl a fu'n ddi-waith dros gyfnod hir i sicrhau a chadw swyddi. Yn ogystal, cytunwyd ar fesurau ymateb cyflym pellach gyda CHM De Ddwyrain Cymru fel y gellir cynnig pecynnau cefnogi hyblyg i helpu gweithwyr Baird i ganfod gwaith arall. Mae mesurau tebyg yn cael eu darparu gan CHM Gorllewin Cymru gan fanteisio ar gyllid strwythurol o Ewrop. Mae'r pecynnau a gynigir gan y CHM yn cynnwys cyngor a chyfarwyddyd gyrfaol; help i feithrin sgiliau newydd; cyflogaeth newydd; anawsterau teithio; darpariaeth gofal plant; a sefydlu busnes. Mae'r ddau CHM yn cadw mewn cysylltiad agos â'r cwmni yngl n â'i gynlluniau i'r dyfodol.

## Mesur Llywodraeth Leol

**Jenny Randerson:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb am lywodraeth leol yngl n â chynnwys diddymiad adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988 yn y Mesur Llywodraeth Leol arfaethedig? (WAQ1955VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau'n ddiweddar gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yngl n ag adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988. Cefnogaf addewid y Llywodraeth i ddiddymu'r ddarpariaeth hon.

## Safle Rhyngrwyd y Cynulliad

**David Davies:** Pam fod safle rhyngrwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddarparu gan Brifysgol Caerfaddon? (WAQ2021VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** National Information Services and Systems, corff sydd yn gweithredu ledled y DU ac sydd â'i ganolfan ym Mhrifysgol Caerfaddon, sydd â'r contract am gynnal safle rhyngrwyd y Cynulliad. Llwyddodd NISS i gynnig pris cystadleuol iawn pan oedd ar y Swyddfa Gymreig angen darparwr gwasanaeth rhyngrwyd newydd yn haf 1998. Daw'r contract hwn i ben ar 31 Mawrth 2000 a byddwn yn cynnig gwahoddiad i dendro am y gwasanaeth hwn cyn bo hir.

### Adeilad Newydd y Cynulliad (Cost)

**Glyn Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn dal i ddweud y bydd cost amcangyfrifedig adeilad newydd y Cynulliad yn cael ei chynnwys o fewn y cyllidebau sydd wedi'u nodi eisoes? (WAQ2022VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y gwyddoch yn iawn, cyhoeddais ddatganiad gerbron yr Aelodau ym mis Hydref yn nodi'r sefyllfa fel yr oedd ar y pryd o ran datblygu adeilad newydd y Cynulliad. Nodai'r datganiad ofynion y gystadleuaeth ddylunio o ran y dyluniad cysyniadol, gan gynnwys y fanyleb gweithgaredd a'r terfyn cost o £12 miliwn. Mae dyluniad yr adeilad yn cael ei adolygu i adlewyrchu sylwadau'r Aelodau ac i sicrhau y bydd yr adeilad yn gwbl hygyrch i bobl ag anabledd. Byddaf yn galw cyfarfod o'r Bwrdd Llywio Polisi cyn bo hir, lle rhoddir i arweinyddion y pleidiau a'r Llywydd fanylion llawn y newidiadau dylunio a awgrymir ynghyd â'r amcangyfrifon ariannol diweddaraf.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

### Cynghorau Plwyf

**Peter Black:** Yng ngoleuni'r sylwadau gan Michael Meacher, Gweinidog yr Amgylchedd, a welwyd yn *The Sunday Times* ar 3 Hydref 1999, bod y Llywodraeth yn ystyried cael gwared ar gynghorau plwyf, a wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ddweud pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal ar ddyfodol cynghorau cymuned yng Nghymru, ac a fydd gan Gymru ymagwedd wahanol at y mater? (WAQ1539VB)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law):** Nid oes unrhyw gynigion i gael gwared â chynghorau cymuned yng Nghymru. Siaradodd y Prif Ysgrifennydd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas y Cynghorau Bro a Thref yn Aberystwyth ar 9 Hydref ac achubodd ar y cyfle i fanylu ar y cyfleoedd i gynghorau cymuned a chynghorau tref fod â rhan lawn yn y gwaith o lunio patrwm gweithredu drwy bartneriaeth yn y Gymru newydd. Tynnodd sylw at y ffaith iddo argymell dyblu nifer eu cynrychiolwyr ar y Cyngor Partneriaeth a bod cymeradwyaeth y Cynulliad i'r awgrym hwnnw yn rhoi neges gadarnhaol iawn i gynghorau cymuned am eu rôl i'r dyfodol.

### Cynlluniau Arbed Ynni yn y Cartref

**Peter Black:** Beth sydd wedi'i ddarparu a pha arian sydd ar gael ar gyfer cynllun arbed ynni yn y cartref mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel er mwyn helpu i ymladd tlodi tanwydd? (WAQ1566VB)

**Peter Law:** Bwriadaf gyflwyno'r cynllun newydd ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref i Gymru yn Ebrill/Mehefin 2000. Bydd y cynllun hwn yn disodli'r mesurau cyfredol a weinyddir gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd ynni i deuluoedd sydd ar incwm isel. Mae tlodi tanwydd yn fater yr ydym yn ei gymryd yn gwbl o ddifrif ac mae'r cynllun newydd hwn wedi ei gynllunio'n benodol i helpu'r bobl hynny sydd yn debygol o fyw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o safbwynt ynni. Bydd y cynllun newydd ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref ar gael yn bennaf i'r rheini yn y sector preifat perchen-breswylwyr a'r sectorau tai ar rent sydd yn derbyn amrywiaeth o fudd-daliadau 'pasport'. Mae'r rhain yn cynnwys lwfans ceisio gwaith seiliedig ar incwm, budd-dâl tai, y credyd treth i deuluoedd sydd yn gweithio a lwfans byw i'r anabl.

Yr oedd y cynigion a gyhoeddwyd fis Gorffennaf eleni er mwyn ymgynghori yn eu cylch yn cynnwys ystod o becynnau insiwleiddio a gwresogi, gan gynnwys insiwleiddiad llofft a waliau dwbl, gwresogyddion ystafell nwy gyda rheolyddion thermostatig a stôr-wresogyddion trydan. Bwriedir sefydlu cynllun ehangach ar gyfer y rhai dros 60 oed sydd yn derbyn y budd-daliadau 'pasport'. Cynigir gwres canolog nwy a thrydan yn ychwanegol at y mesurau a amlinellwyd uchod. Yn hytrach na chynnig dim ond un prif elfen, fel a wneir dan y cynllun cyfredol, darperir pecyn o fesurau insiwleiddio a gwresogi i'r rhai sydd yn elwa o'r cynllun i wneud eu cartrefi yn fwy cyfforddus.

Mynegwyd awydd yn y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt i sefydlu dolen gyswllt rhwng y cynllun a hyfforddiant a chyflogaeth i'r ifainc drwy'r Fargen Newydd. Yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellid cyflawni hynny. Fel rhan o'r trefniadau datganoli caiff cyfanswm o £15.3 miliwn ei drosglwyddo i'r Cynulliad gogyfer â gweithgareddau tlodi tanwydd ar gyfer y blynyddoedd 2000-02. Mater i'r Cynulliad fydd ystyried sut mae defnyddio'r arian hwn. Caiff y ddarpariaeth ei hystyried fel rhan o gylch cynllunio cyfredol y gyllideb.

### Ysbwriel Gardd

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Peter Law wedi'u derbyn yngl n â'r taliadau a godir am gasglu ysbwriel gardd yn Sir Benfro, ac a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau hynny? (WAQ1589VB)

**Peter Law:** Yr wyf wedi derbyn copi o lythyr a anfonwyd at olygydd *The Western Mail* gan gynghorydd lleol. Fe'i cyhoeddwyd yn y papur newydd ar 15 Hydref.

### Rheilffordd Caergybi

**Nick Bourne:** A yw Peter Law yn cynnig y dylai trydaneiddio'r rheilffordd i Gaergybi fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer arian statws Amcan 1? (WAQ1818VB)

**Peter Law:** Nid mater i mi yw cynnig blaenoriaethau ar gyfer arian o Ewrop. Y pwyllgor monitro fydd yn penderfynu ar y ceisiadau. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gallai buddsoddiad o'r math yma fod yn gymwys gan mai dim ond yng nghyd-destun trydaneiddio gweddill y rheilffordd hefyd y tu allan i ardal Amcan 1 yng Nghymru a Lloegr—mewn ardaloedd nad ydynt mewn unrhyw raglen gyfredol—y byddai trydaneiddio'n gwneud synnwyr.

### Fforestydd Cyhoeddus

**David Davies:** A yw'n bolisi gan y Llywodraeth i ganiatáu gwerthu fforestydd cyhoeddus ar gyfer eu datblygu? (WAQ1862VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

### Gwerthu Fforestydd

**David Davies:** A oes gan y Fenter Coedwigaeth yr hawl i werthu fforestydd at ddibenion datblygu? (WAQ1863VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

### Fforestydd yng Nghymru

**David Davies:** A oes gan Peter Law y pwerau cyfreithiol i wyrdroi penderfyniadau'r Fenter Coedwigaeth i werthu fforestydd yng Nghymru? (WAQ1864VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

**Tai Gwag o eiddo Awdurdodau Lleol**

**Peter Black:** Faint o dai a oedd yn eiddo i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999? (WAQ1956VB)

**Peter Law:** Rhoddir gwybodaeth am nifer tai gwag yr awdurdodau lleol yn y tabl isod:

**Nifer y tai o eiddo awdurdodau lleol oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997 1998 (a) 1999**

| | **1997** | **1998 (a)** | **1999** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 105 | 41 | 59 |
| Gwynedd | 110 | 136 | 148 |
| Conwy | 47 | 75 | 71 |
| Sir Ddinbych | 29 | 33 | 73 |
| Sir y Fflint | 90 | 96 | 114 |
| | | | |
| Wrecsam | 327 | 445 | 568 |
| Powys | 64 | 54 | 34 |
| Ceredigion | 27 | 55 | 33 |
| Sir Benfro | 120 | 134 | 189 |
| Sir Gaerfyrddin | 170 | 260 | 428 |
| | | | |
| Abertawe | 445 | 533 | 738 |
| Castell-nedd Port Talbot | 230 | 357 | 348 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 467 | 529 | 549 |
| Bro Morgannwg | 117 | 131 | 55 |
| Caerdydd | 621 | 547 | 572 |
| | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 512 | 580 | 734 |
| Merthyr Tudful | 238 | 322 | 396 |
| Caerffili | 212 | 249 | 357 |
| Blaenau Gwent | 181 | 284 | 369 |
| Tor-faen | 332 | 295 | 271 |
| | | | |
| Sir Fynwy | 29 | 37 | 28 |
| Casnewydd | 249 | 229 | 341 |
| | | | |
| **Cymru** | 4,722 | 5,422 | 6,475 |

*(a) = Yn cynnwys amcangyfrifon am Fro Morgannwg.*

**Tai Gwag o eiddo'r Swyddfa Gymreig**

**Peter Black:** Faint o dai a oedd yn eiddo i'r Swyddfa Gymreig oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999? (WAQ1957VB)

**Peter Law:** Mae cyfanswm y tai gwag a oedd yn eiddo i'r Swyddfa Gymreig ar y dyddiadau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 31 Mawrth 1997 | 33 |
| 31 Mawrth 1998 | 17 |
| 31 Mawrth 1999 | 18 |

Prynwyd y tai hyn ar gyfer cynlluniau ffyrdd i'r dyfodol. Gan ddibynnu ar amserlen cynlluniau o'r fath cânt eu gosod, eu dymchwel neu eu gwerthu mewn achosion lle nad oes angen y tai mwyach.

**Tai Gwag o eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

**Peter Black:** Faint o dai a oedd yn eiddo i bob landlord cymdeithasol cofrestredig neu ffigwr cyfatebol oedd yn wag ar 31 Mawrth 1997, 31 Mawrth 1998 a 31 Mawrth 1999? (WAQ1959VB)

**Peter Law:** Dim ond yng nghyswllt landlordiaid cymdeithasol cofrestredig oddi mewn i'r system dangosyddion perfformiad y cesglir gwybodaeth am nifer y tai sydd yn wag. Y Cynulliad sydd yn casglu dangosyddion perfformiad am landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac maent yn ymdrin â'r landlordiaid sydd yn gyfrifol am dros 90 y cant o'r tai sydd yn eiddo i landlordiaid cymdeithsaol cofrestredig. Nid yw ffigurau 1999 ar gael eto. Rhoddir y wybodaeth sydd ar gael yn y tabl isod:

| **Nifer y tai o eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig oedd yn wag ar 31 Mawrth** | | |
|---|---|---|
| | **1997** | **1998** |
| Aelwyd | - | 7 |
| Baneswell | . | . |
| Bro Myrddin | 5 | 1 |
| Cadwyn | 34 | 17 |
| | | |
| Cantref | 17 | 14 |
| Cymuned Caerdydd | 5 | 59 |
| Siarter | 8 | 27 |
| Clwyd | 30 | 12 |
| Clwyd Alyn | 25 | 34 |
| | | |
| Cynon Taf | 4 | 18 |
| Dewi Sant | 23 | 14 |
| Y Cwm Dwyreiniol | 1 | 2 |
| Eryri | 21 | 10 |
| Teulu (Cymru) | 11 | 23 |
| | | |
| Y Dewis Cyntaf | - | - |
| Morgannwg a Gwent | 98 | 47 |
| Gwalia | 42 | 143 |
| Gwerin (Cymru) | 5 | 30 |
| Hafan | 1 | - |
| | | |
| Hafod | 1 | 1 |
| Merthyr Tudful | 5 | 63 |
| Canolbarth Cymru | 2 | 6 |
| Y Drenewydd | . | - |
| | | |
| Newydd | 83 | 98 |
| Gogledd Cymru | - | 2 |
| Sir Benfro | 3 | 3 |
| Pontypridd a'r Cylch | 3 | - |
| | | |
| Y Rhondda | 5 | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Abertawe | 23 | 12 |
| Taf | 23 | 3 |
| Trothwy | - | - |
| | | |
| Unedig Cymru | 35 | 38 |
| Cymru a'r Gorllewin | 21 | 92 |
| | | |
| **Cymru** | **538** | **783** |

*- = Ddim yn berthnasol*

**Gostyngiadau mewn Nwyon Tŷ Gwydr**

**Alun Cairns:** Pa gamau y mae Peter Law yn bwriadu eu cymryd i sicrhau'r gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr mewn perthynas â chytundeb Kyoto yn 1997? (WAQ1970VB)

**Peter Law:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i chwarae ei rhan i helpu i ddatblygu a chyflwyno rhaglen newid hinsawdd newydd. Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon, ar ddatblygu rhaglen newid hinsawdd ddrafft. Mae'n nodi sut y bydd y DU yn cyflawni y targed y cytunodd iddo yn Kyoto ac yn symud tuag at ei nod gartref a byddir yn ymgynghori â'r cyhoedd ar y drafft yn y flwyddyn newydd.

**Ailgylchu Gwastraff**

**Dafydd Wigley:** Pa gamau a gymerwyd gan Peter Law i sefydlu gwell cyfundrefn o ailgylchu gwastraff yng Nghymru, ac a wnaiff ef gais i ddefnyddio cronfeydd strwythurol o Ewrop yn y flwyddyn 2000-01 i'r perwyl hwn? (WAQ1977)

**Peter Law:** Mae ailgylchu yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu strategaeth gwastraff gynaliadwy i Gymru. Ysgrifennodd y Prif Ysgrifennydd at arweinwyr cynghorau ym mis Awst i bwysleisio mor bwysig oedd hi i gadw'u cynlluniau ailgylchu yn gyfoes ac i bwysleisio hefyd y cyfraniad y gallai'r sector gwirfoddol ei chwarae. Yr wyf yn cymryd pob cyfle i ategu'r neges hon. O fewn y rhaglenni newydd sydd yn cael eu datblygu, bydd yna fesurau penodol i hybu cynlluniau rheoli gwastraff a mater i'r noddwyr fydd cynnig projectau cymwys ac ymgeisio am yr arian strwythurol sydd ar gael.

**Gwasanaeth Trenau rhwng Gogledd a De Cymru (Cwmnïau Rheilffyrdd)**

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Peter Law drefnu i'w adran gysylltu â chwmnïau rheilffyrdd gan gynnwys Central Trains, Northwestern Trains, First Great Western, DSW Swansea a chwmnïau priodol eraill, i sefydlu a oes ganddynt ddiddordeb ai peidio mewn rhedeg gwasanaethau trên rhwng gogledd a de Cymru? (WAQ1980VB)

**Peter Law:** Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at y cwmnïau trên, trwy'r Association of Train Operating Companies, i ofyn iddynt am eu barn am y ddarpariaeth bresennol a'r posibiliadau ar gyfer eu hymestyn ac ar gyfer gwella'r gwasanaeth yn gyffredinol. Byddwn yn disgwyl i'w hymateb ymdrin â'r cysylltiadau rhwng y de a'r gogledd.

**Gwasanaeth Trenau rhwng Gogledd a De Cymru**

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ar y gofynion am wasanaeth trenau rhwng gogledd a de Cymru a fu'n sail trafodaethau rhyngddo ef a'r cwmnïau rheilffyrdd; a beth oedd y canllawiau o ran uchafswm y cymhorthdal ar gyfer gwasanaeth o'r fath? (WAQ1981VB)

**Peter Law:** Ar 24 Mawrth 1999, cyhoeddodd y cyn-Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Mr Peter Hain AS, y byddai'r Swyddfa Gymreig yn gweithio mewn partneriaeth gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru i wella gwasanaethau rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de. Dyna oedd sail y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Wales and West Passenger Trains. Ni chafwyd canllawiau o ran uchafswm y cymhorthdal fyddai ar gael ar gyfer gwasanaeth o'r fath, heblaw'r egwyddor bwysig y dylai unrhyw wasanaeth newydd roi gwerth yr arian. Nid oedd y cynnig gan Wales and West yn bodloni'r gofyn hwn. Ers hynny, mae First North West wedi mynegi eu diddordeb i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ond nid ydynt wedi mynd â hyn ymhellach. Yr ydym yn bwriadu rhoi tystiolaeth i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol Cysgodol i gefnogi'n cynigion ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys y gwasanaethau rhwng y de a'r gogledd. Bydd yr astudiaeth o gysylltiadau cyhoeddus rhwng y de a'r gogledd a lansiwyd gennyf ar 9 Medi yn gyfraniad pwysig at y dystiolaeth hon.

### Allyriannau Carbon Deuocsid

**Alun Cairns:** Faint o garbon deuocsid a allyrrwyd yng Nghymru bob blwyddyn o 1990 tan y flwyddyn hon? (WAQ1982VB)

**Peter Law:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd. Caiff adroddiad ei gyhoeddi'n fuan a fydd yn rhoi manylion yr allyriannau hanesyddol o garbon deuocsid a nwyon t gwydr eraill sydd yn ddarostyngedig i Brotocol Kyoto, yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, am flynyddoedd 1990 ac 1995. Bydd yr adroddiad ar yr un ffurf â'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer y rhestr nwyon tŷ gwydr i'r DU gyfan. Yn y dyfodol, caiff rhestr ei chynhyrchu'n flynyddol ar bob un o wledydd y DU ochr yn ochr â rhestr y DU.

### Adeiladau Rhestredig

**David Melding:** Pa gyfyngiadau sydd yn berthnasol i adeiladau rhestredig sydd yn cael eu haddasu ar gyfer eu defnyddio fel cyfleusterau hamdden masnachol? (WAQ2025VB)

**Peter Law:** Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i newid defnydd unrhyw adeilad, gan gynnwys adeilad sydd wedi ei restru. Yn ogystal, rhaid cael caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol cyn y gellir ehangu neu wneud unrhyw newidiadau i adeilad rhestredig a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gellir pennu amodau ond bydd y rhain yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Rhoddir canllawiau ar newid a defnyddio adeiladau rhestredig yng nghylchlythyr 61/96, ac mae copi ohono yn y Llyfrgell.

### Uwchraddio'r A40

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Peter Law wedi'u derbyn yngl n â'r cynnig i uwchraddio'r A40 gerllaw Travellers Rest, Tre Ioan, Sir Gaerfyrddin, yn enwedig gan berchnogion tai yn yr ardal, ac a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau hynny? (WAQ2026VB)

**Peter Law:** Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ar 5-7 Hydref 1999 i'r gorchmynion drafft a gyhoeddwyd yng nghyswllt y cynigion lle y cyflwynwyd sylwadau am y cynllun, gan gynnwys sylwadau gan 24 o ddeiliaid tai unigol, i arolygydd annibynnol. Yr oedd yr holl ohebiaeth a dderbyniwyd am y gorchmynion drafft ar gael i'w gweld yn ystod yr ymchwiliad, a gellir ei gweld yn awr yn y Cynulliad. Bydd yr arolygydd yn rhoi adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Cynulliad, i'w hystyried ganddo, a bydd penderfyniad y Cynulliad, ynghyd ag adroddiad yr arolygydd, yn cael eu cyhoeddi; rhagwelir y gwneir hynny yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd (Cynllun Lloi)**

**Dafydd Wigley:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig restru dyddiadau a dibenion pob un o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhyngddi a chynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yn ystod mis Medi i drafod y cynllun lloi a basiwyd gan y Cynulliad ar 15 Medi? A yw'n bwriadu gwneud datganiad manwl ar y mater? (WAQ1613)

**Dafydd Wigley:** Ar ba ddyddiadau, ac am ba reswm, yr ymwelodd aelodau o adran Christine Gwyther ag a) staff y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel; b) staff yn swyddfeydd UKREP ym Mrwsel, ym mis Medi ac a wnaiff ddatganiad ynghylch yr ymweliadau hyn? (WAQ1615)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Cadwodd swyddogion o'r adran amaeth mewn cysylltiad agos ag UKREP ym mis Medi a mis Hydref ynghylch y cynllun lloi arfaethedig. Bu cyswllt anffurfiol rhwng swyddogion y Cynulliad a staff y Comisiwn ar y mater ym mis Medi; drwy UKREP y bu'r cyswllt gyda'r Comisiwn yn bennaf. Trefnodd y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac UKREP i swyddogion y Cynulliad gwrdd â swyddogion y Comisiwn ar 5 Hydref i drafod y cynigion, a chyfarfûm i â'r Comisiynydd Fischler ar 6 Hydref.

**Tir Gofal**

**Nick Bourne:** A oes gan Christine Gwyther fwriad i ymestyn y cynllun Tir Gofal er mwyn cynnwys mwy o ffermwyr yn ei flwyddyn nesaf? (WAQ1682VB)

**Christine Gwyther:** Mae'r arian a fydd ar gael i Tir Gofal yn y flwyddyn ariannol nesaf yn dibynnu ar ganlyniad cylch cynllunio'r gyllideb. Yr wyf yn obeithiol y bydd mwy o ffermydd yn gallu cymryd rhan yn Tir Gofal y flwyddyn nesaf.

**Yr Hawl Statudol i Grwydro**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael gyda (i) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, (ii) Undeb Amaethwyr Cymru, (iii) Cymdeithas y Tirfeddianwyr ynghylch yr hawl statudol i grwydro, ac a yw'n fwriad ganddi gyhoeddi manylion y trafodaethau hyn? (WAQ1683VB)

**Christine Gwyther:** Cyfarfûm â'r tri chorff yn ddiweddar ond dim ond yn fy nghyfarfod gyda Chymdeithas y Tirfeddianwyr y trafodwyd mynediad i gefn gwlad agored. Pan oedd Mr Win Griffiths AS yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig, cyfarfu ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas y Tirfeddianwyr ym mis Mai 1998, fel rhan o'r broses o ymgynghori ar gynigion y Llywodraeth yngl n â mynediad i gefn gwlad agored. Cyflwynodd y tri chorff ymatebion ffurfiol i'r papur ymgynghorol. Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi cofnodion fy nghyfarfod gyda Chymdeithas y Tirfeddianwyr.

**Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig**

**Nick Bourne:** Pryd bydd Christine Gwyther yn cyhoeddi'r cyngor cyfreithiol y mae wedi'i gael ynghylch y gweithredu annibynnol posibl yng Nghymru mewn perthynas â chnydau wedi'u haddasu'n enetig, a'r moratoriwm posibl ar ymelwad masnachol o gnydau wedi'u haddasu'n enetig? (WAQ1684VB)

**Christine Gwyther:** Byddaf yn ysgrifennu at Gyfeillion y Ddaear yn fuan yngl n â'r honiadau yn ei bapur ynghylch pwerau'r Cynulliad yng nghyswllt rhyddhau a marchnata organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru. Rhoddir copi o'm hateb yn y Llyfrgell.

**Cynllun Cymorth Prosesu Lloi**

**Nick Bourne:** Pryd y daeth Christine Gwyther yn ymwybodol o agwedd y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn ag anghyfreithlondeb posibl cynllun cymorth prosesu lloi ar wahân i Gymru? (WAQ1685VB)

**Christine Gwyther:** Gwyddem o'r dechrau y byddai yna rwystrau cyfreithiol i'w clirio os oedd y cynllun i gael ei dderbyn a chafodd y rhwystrau hyn eu hegluro'n fanwl i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Ond yr oedd yr arwyddion a roddwyd gan y Comisiwn i Eurig Wyn ac i Aelodau Llafur o'r Senedd Ewropeaidd fel pe baent yn awgrymu bod posibilrwydd gwirioneddol y gellid rhoi cymeradwyaeth. Dim ond ar 6 Hydref y daeth yn amlwg i mi o'r diwedd nad oedd unrhyw debygrwydd o gael cymeradwyaeth i gynllun na fyddai ond yn gweithredu yng Nghymru.

**Cwrdd â Franz Fischler**

**Nick Bourne:** Pa drefniadau a wnaethpwyd i siarad â Franz Fischler ynghylch cynllun cymorth prosesu lloi ar wahân yng Nghymru, a beth oedd hyd y cyfarfod y gofynnodd Christine Gwyther amdano? (WAQ1686VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther gyhoeddi manylion y cyfarfod a gafodd gyda Franz Fischler ynghylch cynllun cymorth prosesu lloi yng Nghymru? (WAQ1687VB)

**Nick Bourne:** Pan gyfarfu â Franz Fischler, a siaradodd Christine Gwyther ag ef am y posibilrwydd o ailgychwyn allforio lloi byw i Ewrop o'r Deyrnas Unedig ac yn benodol o Gymru? (WAQ1689VB)

**Christine Gwyther:** Gwnaethpwyd trefniadau imi gwrdd â'r Comisiynydd Fischler ar 6 Hydref, yn bennaf i drafod y posibilrwydd o gynllun cymorth prosesu lloi ar wahân i Gymru. Parhaodd y cyfarfod am awr ac yn ystod yr amser hwnnw trafodasom nifer o faterion eraill hefyd sydd o bwys i amaethyddiaeth yng Nghymru gan gynnwys y ffaith fod Llywodraeth Ffrainc yn dal i wrthod caniatáu i gig eidion o Brydain gael ei allforio i Ffrainc. Rhoddais adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniadau ein cyfarfod yn ystod y ddadl ar y cynllun cymorth prosesu lloi ddydd Mawrth 9 Hydref.

**Trafodaethau ag Aelodau Seneddol Ewropeaidd**

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther gyhoeddi manylion ei thrafodaethau, os bu rhai o gwbl, gydag ASE Cymru ynghylch cynllun cymorth prosesu lloi i Gymru? (WAQ1688VB)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth ar hyn a materion eraill o bwys i amaethyddiaeth yng Nghymru gyda chydweithwyr yn y Senedd Ewropeaidd.

**Allforio Anifeiliaid Byw**

**Nick Bourne:** A oes gan Christine Gwyther gynlluniau i gwrdd â Farmers Ferry Cyf i drafod allforio anifeiliaid byw? (WAQ1819VB)

**Christine Gwyther:** Nid yw Farmers Ferry Cyf wedi gofyn imi am gyfarfod ynglŷn ag allforio anifeiliaid byw. Mae swyddogion y Cynulliad yn cynnal trafodaethau gyda Farmers Ferry Cyf ynglŷn â'r posibilrwydd o gael cefnogaeth o dan y cynllun datblygu marchnata i'w helpu i sefydlu gweithgaredd marchnata mwy soffistigedig yn unswydd i Gymru, a fydd yn cynnwys mesurau rheoli ansawdd o ran safonau gofal dros anifeiliaid, cludiant a darpariaethau lles er mwyn sefydlu cyfundrefn gyda'r gorau yn y byd gyda dyfodol tymor hir

hyfyw. Yr wyf yn cynnal llawer o ymweliadau a chyfarfodydd ac edrychaf ymlaen at gwrdd â Farmers Ferry Cyf ryw dro.

## Trefniadau Lles

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther gyhoeddi manylion y sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch y trefniadau lles anifeiliaid, a'i hymateb i'r sylwadau hynny mewn perthynas â ffermio moch? (WAQ1820VB)

**Christine Gwyther:** Mater i'r unigolyn a wnaeth y sylwadau yw hynny oni bai ei fod yn rhan o broses ymgynghori gydnabyddedig lle cytunwyd ymlaen llaw i'r ymatebion gael eu cyhoeddi. Mewn achosion lle'r ymatebir i ymgynghori e.e. lles anifeiliaid pan fyddant yn cael eu cludo, bydd yr ymatebion hyn ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

Er mis Gorffennaf eleni, yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau gan gyrff ac unigolion yn mynegi pryder yngl n â chyflwr y diwydiant moch. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi nifer o fesurau i atgyfnerthu'r farchnad i gig moch a phorc o Brydain ac i adfywio'r diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o gynigion gan y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno/ehangu'r mesurau i gynnal y farchnad yn y sector cig moch a phorc, a fydd yn costio £220 miliwn i gyllideb yr UE yn 1999.

## Incwm Ffermydd ar Gyfartaledd

**Nick Bourne:** Beth yw incwm ffermydd ar gyfartaledd yng Nghymru ar hyn o bryd, beth ydoedd y llynedd a'r flwyddyn cyn honno? (WAQ1821VB)

**Christine Gwyther:** Dangosir y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael isod ac mae'n cynnwys pob fferm laeth a da byw.

| **Blwyddyn** | **Incwm Net Ffermydd (£000/fferm)** |
|---|---|
| 1995/96 | 23.2 |
| 1996/97 | 18.7 |
| 1997/98 | 11.4 |

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar safle'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y we dan www.maff.gov.uk.

## Dyfodol y Lwfans Iawndal Da Byw Mynydd

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael gyda Nick Brown, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ynghylch dyfodol y lwfans iawndal da byw mynydd? (WAQ1822VB)

**Christine Gwyther:** Nid wyf wedi trafod y newidiadau i'r lwfans iawndal da byw mynydd gyda Nick Brown. Ar 3 Tachwedd, am y tro cyntaf, ystyriodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig bapur yn amlinellu cynigion ar gyfer y cynllun newydd seiliedig ar ardaloedd i Gymru, a gyflwynir yn 2001. Yr ydym hefyd yn ymgynghori ag eraill sydd â diddordeb yng Nghymru. Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymgynghori ar wahân ar eu cynigion hwy.

## Cig Eidion ar yr Asgwrn

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael gyda'r Athro Anderson o Brifysgol Rhydychen ynghylch unrhyw beryglon sydd yn deillio o fwyta cig eidion ar yr asgwrn? (WAQ1823VB)

**Christine Gwyther:** Dim o gwbl. Yr wyf yn dibynnu ar y Prif Swyddog Meddygol am gyngor yngl n â chig eidion ar yr asgwrn. Yr wyf yn ymwybodol bod galw brwd am ganfyddiadau terfynol grŵp Rhydychen. Ymdriniwyd â chwestiynau manwl ar y mater hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 13 Hydref 1999.

### Deunyddiau Risg Penodedig

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael â Nick Brown ynghylch mabwysiadu'r dull Ffrengig o dynnu deunyddiau risg penodedig o garcasau defaid? (WAQ1824VB)

**Christine Gwyther:** Nid wyf wedi trafod mabwysiadu'r dull Ffrengig o dynnu deunyddiau risg penodedig o garcasau defaid gyda Nick Brown. Mae lladd-dai yn Ffrainc yn tynnu deunyddiau risg penodedig naill ai drwy hollti'r carcasau, y dull a ddefnyddir yn y wlad hon, neu drwy allsugno. Ni thybiwn fod y dull allsugno mor ddiogel oherwydd, heb hollti'r carcas, nid yw'n bosibl sicrhau bod yr holl ddeunyddiau risg penodedig wedi eu tynnu allan.

### Beichiau Rheoleiddiol ar Ffermwyr

**Nick Bourne:** A oes gan Christine Gwyther ddeialog reolaidd â Nick Brown a/neu swyddogion Ewropeaidd ynghylch yr angen i leddfu'r beichiau rheoleiddiol ar ffermwyr? (WAQ1825VB)

**Nick Bourne:** A oes gan Christine Gwyther unrhyw gynigion ar y gweill i leddfu'r beichiau rheoleiddiol ar ffermwyr Cymru? (WAQ1826VB)

**Christine Gwyther:** Ar 20 Medi cyhoeddodd y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd adolygiad ar y cyd o dâp coch. Mae tri maes yn cael eu hadolygu: rheoliadau lladd-dai, gweinyddiaeth a system reoli integredig a gweithdrefnau ymyrryd. Bu swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd a'u cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yngl n ag adolygiad o'r diwydiant cig. Yr wyf yn arbennig o falch fod Mr Robert Kennard o Fferm Graig, Dolau, Llandrindod yn un o aelodau'r gr p, dan gadeiryddiaeth Mr Robin Pooley, sydd yn edrych ar reoleiddio lladd-dai. Yn ogystal, ar 15 Rhagfyr 1998, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, Alun Michael, brosiect £16 miliwn a bwysleisiai benderfyniad y Llywodraeth i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y drefn i weinyddu taliadau'r polisi amaeth cyffredin i ffermwyr yng Nghymru ac i ddarparu mynediad cyd-drefnus at wasanaethau a gwybodaeth am wasanaethau'r Cynulliad ar gyfer ffermwyr a thrigolion cefn gwlad. Bydd y prosiect hwn yn chwyldroi'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweinyddu'r polisi amaethyddol cyffredin i'r diwydiant yng Nghymru drwy gwtogi, cyn belled ag sydd yn bosibl, ar faint y fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth daliadau cymhorthdal i ffermwyr. Bydd hefyd yn datblygu tair swyddfa ranbarthol yr adran yn siopau 'dan yr unto' lle gall ffermwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol gysylltu â holl wasanaethau'r Cynulliad drwy gyfrifiadur.

### Gwahardd Hela â Chŵn

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cael gyda (i) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, (ii) Undeb Amaethwyr Cymru a (iii) Cymdeithas y Tirfeddianwyr ynghylch gwaharddiad posibl ar hela â ch n? (WAQ1827VB)

**Christine Gwyther:** Nid yw Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru na Chymdeithas y Tirfeddianwyr wedi gofyn imi am gyfarfod ar y pwnc hwn.

### Cynllun Cymorth Prosesu Lloi (Estyniad)

**Nick Bourne:** A wnaiff Christine Gwyther gyhoeddi manylion am ymateb Nick Brown i'w chais (os oedd un) am wneud cais ar wahân dros Gymru am estyniad i'r cynllun cymorth prosesu lloi? (WAQ1828VB)

**Christine Gwyther:** Yn ystod ei gyhoeddiad ar becynnau cefnogi ar gyfer ffermwyr ar 20 Medi, fe'i gwnaethpwyd yn glir gan Nick Brown nad oedd yn gweld bod angen ailgyflwyno cynllun cymorth prosesu lloi i'r DU. Fodd bynnag, addawodd y byddai'n hwyluso cais gerbron y Comisiwn o blaid rhoi cynllun ar waith yng Nghymru yn unig.

**Taliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau sydd rhwng Christine Gwyther a Nick Brown ynghylch effaith taliadau'r gwasanaeth hylendid cig ar ladd-dai? (WAQ1829VB)

**Christine Gwyther:** Bu swyddogion y Cynulliad a minnau mewn cyswllt rheolaidd â'n swyddogion cyfatebol yn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yngl n ag effaith taliadau hylendid bwyd ar ladd-dai, yn enwedig yng nghyswllt y lladd-dai bach/canolig sydd yn gyfran helaeth o'r diwydiant cig yng Nghymru. Yr wyf yn arbennig o falch fod Mr Robert Kennard o Fferm Graig, Dolau, Llandrindod yn un o aelodau gr p Robin Pooley sydd yn edrych ar reoleiddio lladd-dai, fel rhan o'r adolygiad annibynnol o dâp coch.

**Cynllun Cymorth Prosesu Lloi (Cais y DU)**

**Nick Bourne:** A yw Christine Gwyther wedi pwyso ar ei chydweithwyr yn y Llywodraeth fod angen i'r DU wneud cais am (i) estyniad i'r cynllun cymorth prosesu lloi i'r DU, a/neu (ii) cynllun annibynnol i Gymru? (WAQ1830VB)

**Christine Gwyther:** Ydwyf, gwneuthum hyn yng nghyfarfod y Gweinidogion amaethyddiaeth ar 8 Medi.

**Labelu Porthiant Anifeiliaid**

**Nick Bourn**e: A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad ar y gofynion ynghylch labelu porthiant anifeiliaid yng Nghymru sydd yn cynnwys cnydau a addaswyd yn enetig? (WAQ1852JS)

**Christine Gwyther:** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol i bennu bod rhaid labelu deunydd sydd wedi ei addasu'n enetig mewn porthiant anifeiliaid. Disgwylir y caiff hyn ei gynnwys yn Rheoliad y CE ar Fwydydd Newydd sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Yr ydym yn parhau i gefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi bwyso ar y Comisiwn i ddod â'r rheoliadau hyn ymlaen cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU, ynghyd â'r diwydiant porthiant, ffermwyr ac adwerthwyr, yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno trefniadau labelu cenedlaethol gwirfoddol, a bydd a wnelo'r Cynulliad â hyn.

**Fforestydd Cyhoeddus**

**David Davies:** A yw'n bolisi gan y Llywodraeth i ganiatáu gwerthu fforestydd cyhoeddus ar gyfer eu datblygu? (WAQ1862VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

**Christine Gwyther:** Ydyw. Gall y Comisiwn Coedwigaeth werthu tir, gan gynnwys fforestydd, sydd â photensial i'w ddatblygu, lle byddai'r gwerthiant yn rhyddhau cyfalaf sylweddol y gellid ei ailfuddsoddi i greu mwy o fudd i'r cyhoedd.

**Gwerthu Fforestydd**

**David Davies:** A oes gan y Fenter Coedwigaeth yr hawl i werthu fforestydd at ddibenion datblygu? (WAQ1863VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

**Christine Gwyther:** Oes. Mae Adran 39(2) Deddf Coedwigaeth 1967, fel y'i diwygiwyd, yn rhoi'r grym i'r Cynulliad i werthu tir o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru at unrhyw ddiben.

**Fforestydd yng Nghymru**

**David Davies:** A oes gan Peter Law y pwerau cyfreithiol i wyrdroi penderfyniadau'r Fenter Coedwigaeth i werthu fforestydd yng Nghymru? (WAQ1864VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.***

**Christine Gwyther:** Oes. Dan Adran 1 Deddf Coedwigaeth 1967, fel y'i diwygiwyd, mae'n ofynnol bod y Comisiynwyr Coedwigaeth, wrth roi eu swyddogaethau yng nghyswllt Cymru ar waith, yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

**Gwariant (2000-01)**

**Peter Black:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid restru'r holl wariant i'w ariannu gan y Cynulliad yn 2000-01 o ganlyniad i fesurau statudol newydd ynghyd â'r grant ychwanegol a ddyrannwyd gan y Llywodraeth ganolog (os dyrannwyd ychwanegiad o gwbl) i Gymru ar gyfer y gwariant hwnnw? (WAQ1204JS)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Bydd cylch cynllunio'r gyllideb sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn casglu'r wybodaeth am y pwysau gwybyddus ar gyllideb y Cynulliad ar gyfer 2000-01 yn sgîl mesurau statudol newydd. Mae'r rheolau sydd yn rheoli sut y cyllidir y Cynulliad (adran 8 o ddogfen y Trysorlys dan y teitl 'A Statement of Funding Policy') yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae gan y Cynulliad hawl i gynnydd yn ei gyllid gogyfer â chostau o'r fath. Yn gyffredinol, os bydd adran yn Whitehall yn derbyn adnoddau ychwanegol i gyllido baich newydd, yna bydd gan y Cynulliad hawl i gyfran briodol. Mae pob gofyniad statudol newydd sydd yn disgyn ar y Cynulliad i'w weithredu yn cael ei archwilio i wneud yn si r ein bod yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol y mae gennym hawl iddo.

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Gwariant)**

**Peter Black:** Faint gafodd ei wario gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar waith ymgynghori gan y sector preifat mewn perthynas ag adleoli'r Amgueddfa Diwydiant a Môr i Abertawe? (WAQ1445JS)

**Edwina Hart:** Yn 1998-99, gwariodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru £65,179 ar ffïoedd ymgynghori i'r sector preifat mewn perthynas â'r Amgueddfa Diwydiant a Môr yn Abertawe.

**Grant Bloc**

**Glyn Davies:** Faint o grant bloc y Swyddfa Gymreig a ddychwelwyd i'r Trysorlys ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf? (WAQ1558JS)

**Edwina Hart:** Mae cyfanswm arian bloc Cymru a ddychwelwyd i Drysorlys EM ers 1994-95 fel a ganlyn:

| | **1994-95** £ miliwn | **1995-96** £ miliwn | **1996-97** £ miliwn | **1997-98** £ miliwn | **1998-99** £ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Dychwelwyd i'r Trysorlys | 30 | 17 | 12 | 10 | 9 |

Byddai'r gost o ddarparu ffigurau am 1989-90 i 1993-94 yn afresymol oherwydd, cyn 1994-95, nid oedd y Trysorlys yn casglu gwybodaeth am gyfanswm tanwariant adrannau yn erbyn y ddarpariaeth bloc.

### Cost Flynyddol Cyflogau

**David Davies:** Faint a ragwelir fydd cyfanswm cost flynyddol cyflogau (ac eithrio cyflog safonol AC) a faint a ragwelir fydd cyfanswm cost flynyddol darparu cyfleusterau swyddfa, staff cynnal, ceir a gyrwyr ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd? (WAQ1839VB)

**Edwina Hart:** Mae cyfanswm cost flynyddol cyflogau'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifenyddion y Cabinet, heb gynnwys eu cyflogau safonol fel Aelodau o'r Cynulliad, yn £331,185. Disgwylir mai £299,340 fydd y gwariant gwirioneddol ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000. Cyllideb costau rhedeg 1999-2000 Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y mae cwmpas ei gwaith yn cynnwys cefnogi Ysgrifenyddion y Cynulliad ond sydd yn ymdrin â chyfrifoldebau eraill ac yn cynnwys y gyfadran cysylltiadau a'r uned bolisi yw £1,815,000. Nid yw hyn yn cynnwys cost rhai cyfleusterau, megis swyddfeydd, gan nad oes posibl gwahanu'r gost hon ar ei phen ei hun. Amcangyfrifir mai cost y gwasanaeth ceir, sydd hefyd ar gael i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'r Ysgrifennydd Parhaol, fydd £115,399 am 1999-2000.

### Treth Gyngor

**Jonathan Morgan:** A yw penderfyniad y Weithrediaeth i ganiatáu i gynghorau godi treth gyngor ychwanegol er mwyn helpu cynghorau sydd yn methu, yn golygu rhoi grym codi trethi i'r Cynulliad? (WAQ1963VB)

**Edwina Hart:** Nid oes unrhyw benderfyniad o'r fath. Wrth ymgynghori â llywodraeth leol gofynnwyd inni ystyried atgyfnerthu'r trefniadau 'grant lleddfu' i warchod pobl sydd yn byw yn rhai o rannau tlotaf Cymru rhag codiad afresymol yn y dreth gyngor. Cyflwynwyd opsiwn i gyflawni hynny gerbron y Cyngor Partneriaeth a gwahoddwyd sylwadau gan gynrychiolwyr llywodraeth leol. Yr awdurdodau lleol sydd yn penderfynu ar lefel y dreth gyngor, er bod gan y Cynulliad bwerau wrth gefn i gyfyngu ar y codiadau a wnânt. Nid yw'r trefniadau i leddfu'r dreth gyngor yn bodoli i helpu cynghorau am eu bod yn aneffeithiol nac i glirio eu dyledion. Diben y lleddfu yw gwarchod y trethdalwyr rhag codiadau afresymol yn y dreth gyngor, oherwydd mae anghysondeb difrifol rhwng y cyllidebau a'r asesiadau gwariant safonol mewn rhai ardaloedd—problem yr ydym wedi ei hetifeddu oddi wrth y Llywodraeth flaenorol a phroblem yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hi gyda llywodraeth leol. Gobeithiwn y bydd yr angen i leddfu yn dod i ben pan ddaw fformiwla asesiadau gwariant safonol newydd i rym yn 2001-02.

### Cynnydd yn y Doll Stamp

**Alun Cairns:** Beth fydd y gost ychwanegol i weithrediadau'r Cynulliad o ganlyniad i'r cynnydd diweddar yn y doll stamp? (WAQ1972VB)

**Edwina Hart:** Dim. Dan atodlen 12 (25) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, nid yw'r Cynulliad yn talu toll stamp.

### Canolfan Mileniwm Cymru

**Jonathan Morgan:** A fydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn gosod terfyn ar gyfraniad ariannol y Cynulliad ar gyfer adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru? (WAQ1978VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.***

### Gwahaniaeth yn yr arian a delir i Gymru ac a ad-delir i'r Trysorlys

**David Davies:** Beth yw amcangyfrif Edwina Hart o'r gwahaniaeth rhwng yr arian a delir i Gymru gan y Llywodraeth ganolog a'r cronfeydd Ewropeaidd, a'r hyn a fydd yn cael ei ad-dalu i'r Trysorlys drwy drethi uniongyrchol ac anuniongyrchol? (WAQ2013VB)

**Edwina Hart:** Y flwyddyn fwyaf diweddar y mae amcangyfrifon o'r refeniw a godwyd yng Nghymru ar gael amdani yw 1994-95. Yn y flwyddyn honno mae'r Swyddfa Gymreig yn amcangyfrif bod £9.9 biliwn wedi ei godi o dreth incwm, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, treth ar werth a refeniw arall (gan gynnwys refeniw awdurdodau lleol, sydd yn aros yng Nghymru). Yn 1994-95, cyfanswm gwariant cyffredinol adnabyddadwy y Llywodraeth yng Nghymru (h.y. gwariant llywodraethu cyffredinol y gellir ei adnabod o'r cofnodion sydd ar gael fel gwariant a wynebwyd er budd pobl yng Nghymru) oedd £12.5 biliwn. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw elfen Gymreig o wariant anadnabyddadwy y DU (e.e. amddiffyn, llog ar ddyledion) ar ran holl drigolion y DU hyd yn oed os mai yng Nghymru y digwydd y gwariant (er enghraifft, y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol yng Nghasnewydd). Yn 1994-95, yr oedd gofyniad benthyca cyffredinol Llywodraeth y DU at ddibenion llywodraethu yn £47.9 biliwn, tua 7 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd

### Ffermydd Gwynt Arfor

**Peter Black:** A yw'n debygol y bydd cymorth ar gael o arian Amcan 1 ar gyfer ffermydd gwynt arfor? (WAQ1564VB)

**Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan):** Mae'r ddogfen raglennu sengl Amcan 1 yn amlwg yn darparu'r potensial i brosiectau ynni adnewyddadwy fod yn gymwys i gael cymhorthdal, lle byddant yn arwain at fanteision economaidd dangosadwy. Bydd cefnogaeth i fentrau penodol yn dibynnu ar eu gallu i fodloni'r holl ofynion statudol ac i roi gwerth da am arian.

### Denu Swyddi i Ystradgynlais

**Nick Bourne:** A wnaiff Rhodri Morgan roi manylion o ba ymdrechion sydd yn parhau i gael eu gwneud i ddenu swyddi i Ystradgynlais, er gwaethaf y llwyddiant diweddar wrth ddenu Lyte Industries i'r gymuned? (WAQ1579VB)

**Rhodri Morgan:** Bydd Sumitomo Electrical Wiring Systems yn darparu 100 o swyddi mewn canolfan beirianneg gwasanaethu cwsmeriaid ym Mharc Menter Woodlands. Mae tua 200 o gyn-weithwyr Lucas Varity wedi canfod gwaith arall. Mae Lyte Industries yn rhagweld y bydd yn darparu 200 neu fwy o swyddi yn Ystradgynlais. Bydd Harlech Tool and Engineering yn ehangu ym Mharc Menter Ynyscedwyn yn sgîl yr help a gafwyd drwy raglen cynhyrchu effeithiol Awdurdod Datblygu Cymru, a fu'n help i'r cwmni ennill statws cyflenwr i Sony. Mae cwmni yn ehangu uned warws ym Mharc Busnes Woodlands gan addo 12 i 15 o

swyddi newydd ac mae cartref nyrsio Cwrt Enfys yn Ystradgynlais wedi creu 20 o swyddi ac yn debyg o greu mwy maes o law. Disgwylir y bydd dalgylch gweithlu ffatri Mitsui Kinzoku, a fydd yn darparu 200 o swyddi newydd yng Nghapel Hendre ger Rhydaman, yn gorgyffwrdd yn rhannol â dalgylch hen waith Lucas SEI yn Ystradgynlais. Mae partneriaeth adfywio cwm Aman a Thawe, sydd yn dod ag awdurdodau lleol yn yr ardal ynghyd yn ogystal ag Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill, yn parhau i wthio'r anogaeth i fusnesau lleol dyfu yn ei blaen ac i ddenu mewnfuddsoddiad. Mae strategaeth datblygu economaidd dan ystyriaeth a fydd yn darparu astudiaeth amlddisgyblaethol a chynllun gweithredu strategol. Mae Ystradgynlais wedi ei gynnwys yng nghynigion Amcan 2 y Deyrnas Unedig i'r Comisiwn Ewropeaidd gogyfer â 2000 i 2006. Os oes prosiectau addas yn cael eu cyflwyno, gallai Ystradgynlais fod mewn sefyllfa dda i elwa o gyllid Amcan 2 o Ewrop. Eisoes cafwyd llwyddiant o ran darparu swyddi newydd yn yr ardal. Mae'r cydweithrediad agos ac agwedd gadarnhaol pawb sydd yn rhan o'r gwaith o geisio adfywio'r ardal, ynghyd â'r cyfleoedd newydd a gynigir gan y strategaeth datblygu economaidd ac Amcan 2, yn debyg o sicrhau y bydd mwy o swyddi'n dilyn.

### Effaith Camlesi mewn perthynas â Thwristiaeth

**Nick Bourne:** A gafwyd asesiad o effaith camlesi yng Nghymru mewn perthynas â thwristiaeth ac, os felly, a wnaiff Rhodri Morgan gyhoeddi'r asesiad hwnnw? (WAQ1799VB)

**Rhodri Morgan:** Nid oes asesiad cyffredinol o effaith camlesi ar dwristiaeth wedi ei gynnal yng Nghymru. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cefnogi nifer o brosiectau i ddatblygu camlesi, a aseswyd yn erbyn meini prawf grantiau y Bwrdd. Mae sawl camlas yng Nghymru wedi ei hailwampio fel ei bod yn gallu denu mwy o wyliau cychod culion ac i wneud amgylchedd y gamlas yn fwy deniadol ar gyfer diddordebau hamdden fel cerdded a physgota.

### Hybu Diwydiant Cymru

**Nick Bourne:** Pa gynigion sydd ar y gweill gan Rhodri Morgan i hybu diwydiant Cymru dramor yn y flwyddyn bresennol? (WAQ1801VB)

**Rhodri Morgan:** I helpu i hybu diwydiant Cymru yn rhyngwladol, mae rhaglen fwy eang o deithiau masnach wedi ei sefydlu dan weinyddiaeth y Cynulliad. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithgareddau swyddfeydd tramor a rhwydwaith ymgynghorol Awdurdod Datblygu Cymru; mae ymgyrchoedd hysbysebu yn y wasg fusnes ryngwladol; hysbysebion teledu ar deithiau awyr hir a chydweithio gyda'r pedwar rhanbarth ysgogol ar faterion datblygu economaidd hefyd yn berthnasol i'r diben hwn. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio gydag asiantaethau a chyrff eraill o'r sector cyhoeddus i ddatblygu patrwm gweithredu cydlynus i wneud y mwyaf o bob cyfle ac o'r adnoddau er mwyn codi proffil Cymru yn fwy cyffredinol, a byddai hyn o fudd i gynnyrch a gwasanaethau Cymru.

### Cyllid y Trysorlys ar gyfer Amcan 1

**Nick Bourne:** Faint o gyllid ychwanegol y Trysorlys o San Steffan a gaiff ei ymrwymo i brosiectau Amcan 1 yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd yn gweithredu, a phryd y cyhoeddir y datganiad hwnnw? (WAQ1804VB)

**Rhodri Morgan:** Mae Papur EDC-08-99 (td. 1) a drafodwyd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 13 Hydref 1999, yn nodi ym mharagraff 21 y gofyniad ariannu tebygol a'r ffynhonnell arian i gwrdd â'r gwariant ar raglenni'r cronfeydd strwythurol yn 2000-2001. Nid yw hyn yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd, gan mai'r Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol am hynny.

**Diffyg Arian Cyfatebol**

**Nick Bourne:** Os bydd y Llywodraeth yn methu ag ymrwymo'r arian cyfatebol angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf y bydd arian Amcan 1 yn gweithredu, pa gyllidebau y mae Rhodri Morgan yn rhagweld fydd yn cael eu brig-dorri er mwyn gwneud iawn am y diffyg? (WAQ1805VB)

**Rhodri Morgan:** Yr ydym yn hyderus y gellir delio â'r gwariant tebygol a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen o fewn y ddarpariaeth a neilltuwyd i'r diben hwn, ac felly ni fydd gofyn brig-dorri.

**Cychwyn Busnesau**

**Nick Bourne:** Ym mha ffyrdd y mae Rhodri Morgan yn ceisio sicrhau bod i fusnesau a sefydlir yng Nghymru fin cystadleuol o'u cymharu â busnesau a sefydlir yn Lloegr? (WAQ1806VB)

**Rhodri Morgan:** Amcan allweddol y rhaglen cychwyn busnesau, a reolir gan y cynghorau hyfforddiant a menter yng Nghymru, a chynlluniau cysylltiol, yw helpu i sicrhau bod mentrau newydd ar seiliau cadarn gyda chynllun busnes trylwyr, cefnogaeth ariannol briodol, hyfforddiant sgiliau, mentora a chwnsela. Nod yr ystod yma o gefnogaeth yw sicrhau bod cynifer â phosibl o'r busnesau newydd sydd yn ymsefydlu yn gystadleuol o'u cymharu â chwmnïau sydd yn bodoli'n barod a'u bod yn parhau'n gystadleuol drwy'r blynyddoedd cyntaf anodd o fasnachu. Mae angen i fentrau newydd fod yn gystadleuol ynddynt eu hunain ac o'u cymharu â busnesau newydd yn Lloegr, a, fwyfwy, ar sail fyd-eang, o gofio'r datblygiadau mewn e-fasnach a'r dechnoleg gysylltiol.

**Twristiaeth (Punt Sterling)**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Rhodri Morgan wedi'u derbyn oddi wrth y diwydiant twristiaid ynghylch effaith andwyol cryfder y bunt sterling ar dwristiaeth, ac a yw wedi cyfleu'r sylwadau hyn i swyddogion y Trysorlys yn San Steffan? (WAQ1809VB)

**Rhodri Morgan:** Er bod hyn wedi codi o bryd i'w gilydd mewn trafodaethau gyda'r rhai sydd yn y diwydiant twristiaeth, nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau ffurfiol ynglŷn ag effaith andwyol cryfder y bunt.

**Twristiaeth (Pris Petrol)**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Rhodri Morgan wedi'u derbyn oddi wrth y diwydiant twristiaeth ynghylch effaith andwyol pris uchel petrol ar dwristiaeth ac a yw wedi cyfleu'r sylwadau hyn i swyddogion y Trysorlys yn San Steffan? (WAQ1810VB)

**Rhodri Morgan:** Er bod cost petrol wedi codi o bryd i'w gilydd mewn trafodaethau gyda'r rhai sydd yn y diwydiant twristiaeth, nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau ffurfiol ynglŷn ag effaith andwyol pris petrol.

**Amcan 2**

**Kirsty Williams:** Pam fod ardaloedd de ddwyrain Powys wedi'u heithrio o statws Amcan 2? Sut daethpwyd i'r penderfyniad hwn a pha feini prawf a ddefnyddiwyd? Penderfyniad pwy oedd hyn? (WAQ1814VB)

**Rhodri Morgan:** Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw cyflwyno cynigion i'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â map Amcan 2. Wrth lunio ei gynigion, ystyriodd yr Ysgrifennydd

Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach gyngor oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Ysgrifennydd a minnau. O fewn amlen sydd yn cynnwys poblogaeth o tua 270,000 i gyd, pennwyd blaenoriaethau gan ystyried lefelau diweithdra ynghyd ag elfennau sydd yn mesur dibyniaeth uchel ar ddiwydiant neu amaethyddiaeth a dirywiad yn y sectorau hyn. Ar gyfer ardaloedd trefol, defnyddiwyd mynegai o amddifadedd lleol. Wrth gyflwyno ein cyngor, ceisiodd y Prif Ysgrifennydd a minnau ddal y fantol orau ag y medrem rhwng darparu ar gyfer ardaloedd difreintiedig trefol a gwledig, gan gofio'r meini prawf hyn.

## Lefel Gweithgaredd Economaidd Cymru

**Alun Cairns:** Beth yw lefel gweithgaredd economaidd Cymru o'i chymharu â phob rhanbarth arall yn y DU? (WAQ1952JS)

**Rhodri Morgan:** Rhoddir yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael am lefel gweithgaredd economaidd Cymru a rhanbarthau eraill y DU, am y cyfnod Mehefin i Awst 1999, yn y tabl isod:

| **Miloedd, wedi'u haddasu yn ôl y tymhorau** | | |
|---|---|---|
| | **Gweithgar yn economaidd** [1] | |
| **Swyddfa'r Llywodraeth Rhanbarth/Gwlad** | **Cyfanswm** | **Cyfradd (%)**[2] |
| Gogledd Ddwyrain | 1,182 | 73.7 |
| Gogledd Orllewin | 3,277 | 76.5 |
| Swydd Efrog a'r Humber | 2,456 | 78.2 |
| Dwyrain y Canolbarth | 2,127 | 80.7 |
| Gorllewin y Canolbarth | 2,643 | 79.5 |
| Dwyrain Lloegr | 2,749 | 81.6 |
| Llundain | 3,590 | 77.8 |
| De Ddwyrain | 4,128 | 82.9 |
| De Orllewin Lloegr | 2,475 | 81.8 |
| Lloegr | 24,628 | 79.5 |
| **Cymru** | **1,331** | **74.1** |
| Yr Alban | 2,474 | 77.0 |
| Prydain Fawr | 28,433 | 79.0 |
| Gogledd Iwerddon [3] | 746 | 72.7 |
| Y Deyrnas Unedig | 29,176 | 78.8 |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Arolwg y Gweithlu*

1. Nifer y personau mewn gwaith a'r di-waith yn ôl y Corff Llafur Rhyngwladol.
2. Y rhai gweithgar yn economaidd fel canran o'r holl bobl o oed gwaith.
3. Nid yw amcangyfrifon Gogledd Iwerddon wedi eu haddasu yn ôl y tymhorau.

## Lefel Gweithgaredd Ymchwil a Datblygiad (Cymru)

**Alun Cairns:** Beth yw lefel gweithgaredd ymchwil a datblygiad Cymru o'i chymharu â phob rhanbarth arall yn y DU? (WAQ1953JS)

**Rhodri Morgan:** Nid oes ffigurau swyddogol ar gael am lefelau gweithgaredd ymchwil a datblygu. Dengys y Cyfrifiad Cynhyrchu Blynyddol weithgareddau ymchwil a datblygiad y sector gweithgynhyrchu fel canran o'r gwerth crynswth a ychwanegir. Cyhoeddir ffigurau am 1997 gan yr Adran Ddiwydiant a Masnach yn 'Regional Competitiveness Indicators' (Gorffennaf 1999) ac fe'u rhoddir isod.

Gallai'r ffigurau hyn fod yn gamarweiniol; maent yn dangos ym mhle y cynhaliwyd gweithgaredd ymchwil a datblygiad ond nid o reidrwydd ym mhle y caiff yr ymchwil a'r datblygu eu hymelwa arnynt.

| **Swyddfa'r Llywodraeth Rhanbarth/Gwlad** | **Ymchwil a datblygiad gan fentrau busnes ar gyfer cynnyrch gweithgynhyrchu, fel % o'r gwerth crynswth a ychwanegir** |
|---|---|
| | |
| Gogledd Ddwyrain | 3.4 |
| Gogledd Orllewin | 6.4 |
| Swydd Efrog a'r Humber | 2.0 |
| Dwyrain y Canolbarth | 5.1 |
| Gorllewin y Canolbarth | 3.7 |
| Dwyrain Lloegr | 18.6 |
| Llundain | 5.9 |
| De Ddwyrain | 12.4 |
| De Orllewin | 7.3 |
| Lloegr | 7.4 |
| **Cymru** | **1.6** |
| Yr Alban | 3.2 |
| Gogledd Iwerddon | 2.6 |
| Y Deyrnas Unedig | 6.7 |

### Lefel Medrau'r Gweithlu

**Alun Cairns:** Beth yw lefel medrau gweithlu Cymru o'i chymharu â phob rhanbarth arall yn y DU? (WAQ1954JS)

**Rhodri Morgan:** Nid oes mynegai cyfansawdd o lefelau medrau'r gweithlu. Mae Arolwg y Gweithlu yn rhoi inni amcangyfrifon o gymwysterau academaidd a galwedigaethol pobl sydd yn weithgar yn economaidd a rhoddir y rhain yn y tabl isod.

| **Amcangyfrif o lefelau cymwysterau'r gweithlu, haf 1999 (1)** | | | |
|---|---|---|---|
| | Canran y rhai economaidd weithgar (2) o oed gwaith sydd â chymwysterau hyd at: | | |
| | **Lefel 2 neu'n uwch** | **Lefel 3 neu'n uwch** | **Lefel 4 neu'n uwch** |
| Cymru | 68 | 42 | 24 |
| Yr Alban | 74 | 51 | 29 |
| Gogledd Iwerddon | 67 | 43 | 25 |
| Lloegr | 67 | 44 | 25 |
| Rhanbarthau Lloegr: | | | |
| Gogledd Ddwyrain | 66 | 41 | 21 |
| Gogledd Orllewin | 70 | 44 | 24 |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 67 | 42 | 21 |
| Dwyrain y Canolbarth | 67 | 41 | 22 |
| Gorllewin y Canolbarth | 65 | 40 | 21 |
| Dwyrain Lloegr | 68 | 42 | 23 |
| Llundain | 72 | 50 | 34 |
| De Ddwyrain | 72 | 48 | 29 |
| De Orllewin | 70 | 45 | 25 |
| **Y Deyrnas Unedig** | **67** | **45** | **26** |

*Ffynhonnell: Arolwg y Gweithlu (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)*

(1) Mae'r lefelau a nodir yn cyfeirio at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar y lefel honno neu gymhwyster cyfatebol.
(2) Mae economaidd weithgar yn golygu pobl mewn gwaith ynghyd â'r rheini sydd yn ddi-waith ac yn ceisio gwaith ac ar gael i weithio.

**Rheoli'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (Trafodaethau)**

**Jonathan Morgan:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ddatgan hynt y trafodaethau rhwng y Weithrediaeth a'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch rhoi'r cyfrifoldeb am reoli'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru i Gymru? (WAQ1969VB)

**Rhodri Morgan:** Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd rhwng swyddogion y Cynulliad a'r Adran Addysg a Chyflogaeth yngl n â'r trefniadau i'r dyfodol o ran rheolaeth ariannol y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r ystyriaethau yn gymhleth, ac mae yna faterion anodd i'w datrys ar y naill ochr a'r llall a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad.

**Rhwymedigaethau Kyoto (Colli Swyddi)**

**Alun Cairns:** Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd wedi'i wneud o unrhyw swyddi y gellid eu colli o ganlyniad i Gymru yn chwarae ei rhan wrth gwrdd â rhwymedigaethau Kyoto o ran lleihau nwyon t gwydr? (WAQ1971VB)

**Rhodri Morgan:** Mae Protocol Kyoto yn cydnabod yr angen i leihau allyriannau carbon deuocsid a nwyon t gwydr eraill cyn y gellir cael datblygu cynaliadwy a gwella ansawdd ein bywydau. Mae'r Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon, i ddatblygu strategaeth er mwyn cyflawni cyfrifoldebau'r DU ac yr wyf yn disgwyl ymgynghori cyhoeddus ar hyn yn y flwyddyn newydd. Disgwylir y bydd ffyniant pobl Cymru yn elwa yn sgîl canlyniadau tymor hir lleddfu'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y goblygiadau o ran cyflogaeth yn y tymor byrrach yn dibynnu ar y gymysgedd o fesurau a fabwysiadir, gyda photensial cychwynnol ar gyfer effeithiau llesol ac andwyol, a phryder arbennig am yr effeithiau andwyol posibl ar ddiwydiannau sydd yn drwm ar ynni, y mae cynifer ohonynt yng Nghymru.

**Cau Busnesau (Deddfwriaeth Ewropeaidd)**

**David Davies:** Faint o fusnesau yng Nghymru sydd wedi cau o ganlyniad i ddeddfwriaeth Ewropeaidd ers Mai 1997? (WAQ2017VB)

**Rhodri Morgan:** Mae busnesau yn methu am amrywiaeth o resymau, fel arfer oherwydd diffyg gwerthiant a/neu archebion a'r problemau ariannol a ddaw yn sgîl hynny, yn hytrach nag oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol.

**Cynllun Archwilio a Chofrestru (Llety Twristiaid)**

**Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd i gyflwyno cynllun gorfodol i archwilio a chofrestru llety twristiaid yng Nghymru? (WAQ2033VB)

**Rhodri Morgan:** Lansiodd Bwrdd Croeso Cymru ei gynllun sêr graddio ansawdd gwirfoddol newydd y llynedd ac mae'n monitro'r niferoedd sydd yn ymuno â'r cynllun a'i effaith ar y sector llety. Byddwn yn ystyried yr angen i weithredu ymhellach unwaith y bydd y cynllun wedi cael amser i ddatblygu. Ymdrinnir â phwnc cynllun gorfodol yn strategaeth dwristiaeth

newydd arfaethedig Bwrdd Croeso Cymru sydd i gael ei thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Tachwedd.

### Cyfrannu at Ddatblygu Polisi'r Cynulliad

**Kirsty Williams:** Sut bydd yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yn sicrhau bod gweithredwyr unigol yn y diwydiant ymwelwyr yn cael cyfrannu pan fydd y Cynulliad yn datblygu polisi yn y maes hwn? (WAQ2034VB)

**Rhodri Morgan:** Tra yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn datblygu ei strategaeth dwristiaeth newydd arfaethedig ar gyfer blynyddoedd 2000-10, ymgynghorodd y Bwrdd yn eang â gweithredwyr twristiaeth a gwahoddwyd hwy i ddod i seminarau twristiaeth a gynhaliwyd ledled Cymru. Mae eu safbwyntiau wedi eu bwydo i mewn i'r strategaeth sydd i gael ei chyflwyno a'i thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Tachwedd.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Grantiau Loteri (Amgueddfeydd ac Orielau Celf)

**Nick Bourne:** Pa grantiau Loteri sydd wedi'u derbyn gan orielau celf ac amgueddfeydd Cymru yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ991VB)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Dyfernir grantiau loteri i orielau celf ac amgueddfeydd yng Nghymru gan Gronfa Gelfyddydau'r Loteri yng Nghymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yr wyf wedi gofyn i'r ddau gorff ysgrifennu atoch gyda'r manylion. Rhoddaf gopi o'u hatebion yn y Llyfrgell.

### Opsiynau y Fargen Newydd

**David Davies:** Faint o bobl ym mhob un o etholaethau'r Cynulliad sydd ar hyn o bryd wedi eu cofrestru ym mhob un o opsiynau canlynol y Fargen Newydd (a) addysg a hyfforddiant llawn amser, (b) y sector gwirfoddol, a (c) tasglu'r amgylchedd? (WAQ1198VB)

**Tom Middlehurst:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod. Mae'n cyfeirio at y Fargen Newydd i bobl ifainc ar ddiwedd Gorffennaf 1999 ac mae'n deillio o ddadansoddiadau newydd a gynhelir gan y Gwasanaeth Cyflogaeth ar lefel etholaeth. Y niferoedd ar y Fargen Newydd i bobl ifainc yng Nghymru ddiwedd Gorffennaf 1999, yn ôl etholaethau'r Cynulliad:

| Etholaeth y Cynulliad | Addysg a hyfforddiant llawn amser | Y sector gwirfoddol | Tasglu'r amgylchedd |
|---|---|---|---|
| Aberafon | 18 | 8 | 22 |
| Alyn a Glannau Dyfrdwy | 8 | 6 | 17 |
| Blaenau Gwent | 28 | 21 | 16 |
| Brycheiniog a Maesyfed | 11 | 9 | 10 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22 | 10 | 17 |
| Caernarfon | 24 | 14 | 13 |
| Caerffili | 27 | 11 | 43 |
| Canol Caerdydd | 21 | 21 | 8 |
| Gogledd Caerdydd | 11 | 7 | 3 |
| De Caerdydd a Phenarth | 24 | 21 | 13 |
| Gorllewin Caerdydd | 11 | 17 | 10 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 34 | 5 | 9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro | 30 | 13 | 13 |
| Ceredigion | 16 | 17 | 6 |
| De Clwyd | 12 | 6 | 15 |
| Gorllewin Clwyd | 20 | 6 | 13 |
| Conwy | 39 | 18 | 19 |
| Cwm Cynon | 32 | 15 | 13 |
| Delyn | 11 | 4 | 14 |
| Gŵyr | 14 | 8 | 22 |
| Islwyn | 16 | 9 | 24 |
| Llanelli | 53 | 15 | 26 |
| Meirionnydd Nant Conwy | 7 | 15 | 10 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 49 | 32 | 53 |
| Mynwy | 15 | 7 | 2 |
| Maldwyn | 8 | 9 | 1 |
| Castell-nedd | 18 | 8 | 26 |
| Casnewydd – Dwyrain | 24 | 10 | 12 |
| Casnewydd – Gorllewin | 20 | 11 | 19 |
| Ogwr | 13 | 5 | 19 |
| Pontypridd | 15 | 21 | 12 |
| Preseli Penfro | 24 | 30 | 18 |
| Y Rhondda | 26 | 27 | 14 |
| Dwyrain Abertawe | 20 | 12 | 24 |
| Gorllewin Abertawe | 32 | 15 | 23 |
| Tor-faen | 20 | 19 | 19 |
| Dyffryn Clwyd | 26 | 17 | 23 |
| Bro Morgannwg | 29 | 8 | 14 |
| Wrecsam | 18 | 5 | 23 |
| Ynys Môn | 27 | 29 | 14 |
| **Cymru (1)** | **885** | **545** | **680** |

(1) Mewn 24 achos nid oedd y cyfeiriad wedi ei gofnodi, felly bydd cyfanswm ffigurau'r etholaethau fymryn yn is na'r ffigur a roddir yma i Gymru gyfan.

**Rhagoriaeth ym maes Cerddoriaeth**

**Nick Bourne:** Pa fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael i bobl ifainc Cymru ar gyfer rhagoriaeth ym maes cerddoriaeth? (WAQ1673VB)

**Tom Middlehurst:** Mae'r holl gyllid a roddir gan y Llywodraeth tuag at y celfyddydau yng Nghymru wedi ei drosglwyddo i Gyngor Celfyddydau Cymru. Dywed ei ddatganiad rheoli yn glir mai mater iddynt hwy yw penderfynu ar ddyraniad a dosbarthiad yr arian. O ran bwrsariaethau ac ysgoloriaethau, mae Cyngor y Celfyddydau ar hyn o bryd yn cefnogi unigolion sydd am ymgymryd ag astudiaethau ôl-radd. Yn 1999-2000, rhoddwyd naw dyfarniad, allan o 48 o geisiadau cychwynnol, gwerth £18,460 i gyd.

**Caeau Chwarae Ysgol**

**Nick Bourne:** Faint o gaeau chwarae yng Nghymru a werthwyd yn 1996, 1997 a 1998 a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog ysgolion i beidio â gwerthu caeau chwarae? (WAQ1764VB)

**Tom Middlehurst:** Nid oes unrhyw ffigurau'n cael eu cadw'n ganolog am nifer y caeau chwarae ysgol a werthir yng Nghymru. Mae nifer o fesurau wedi eu sefydlu i ddiogelu caeau chwarae a thir ysgolion yng Nghymru:

- diwygiwyd y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Trefn) yn 1996 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynglŷn â cheisiadau cynllunio sydd yn effeithio ar unrhyw gaeau chwarae;
- mae polisi'r Llywodraeth yn Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i warchod rhag datblygu y mannau agored hynny sydd â gwerth sylweddol o ran adloniant neu fwynderau mewn ardaloedd trefol. Yn 1997, adolygodd Cyngor Chwaraeon Cymru Orchymyn 1996 gan ddod i'r casgliad mai prin yw'r caeau chwarae sydd yn newid dwylo a bod ennill net cynyddol o ran niferoedd ac ansawdd. Nid oes unrhyw dystiolaeth ers hynny i awgrymu bod y sefyllfa wedi newid.

## Chwaraeon Ysgol

**Nick Bourne:** Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hybu cystadleuaeth mewn chwaraeon ysgol? (WAQ1765VB)

**Tom Middlehurst:** Ar 21 Hydref, lansiodd Rosemary Butler gam olaf yr ymgynghori statudol ar y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig i Gymru. Mae'r cynigion o ran addysg gorfforol yn cadw gemau fel gofyniad yng nghyfnodau allweddol 1-3. Mae chwaraeon cyfnod allweddol 4, sydd yn cynnwys chwaraeon cystadleuol, yn un o bedwar gweithgaredd y mae'n rhaid dewis dau o'u plith. Bydd y cynigion hyn yn caniatáu i'r rheini sydd am gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol wneud hynny, tra'n sicrhau bod y rheini na chânt unrhyw gymhelliant o chwaraeon cystadleuol yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol sydd yn rhoi boddhad iddynt hwy.

Mae rôl a chynlluniau Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon allgyrsiol wedi eu nodi yn ei 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' ac yn cynnwys, yn arbennig, ei gynllun Chwaraeon y Ddraig. Anfonwyd copi o'r strategaeth hon at yr Aelodau i gyd ym mis Mai 1999 ac mae ar gael hefyd yn y Llyfrgell.

## Cyfleusterau Hyfforddiant Athletau

**Nick Bourne:** Pa gyfleusterau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer hyfforddiant athletau ar lefel ryngwladol? (WAQ1766VB)

**Tom Middlehurst:** Mae 14 trac athletau synthetig, gyda chyfleusterau cysylltiol ar gyfer campau maes, yng Nghymru yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant. Bydd canolfan athletau dan do genedlaethol newydd yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, sydd i agor fis Ionawr 2000 gyda chymorth £5.56 miliwn o arian Loteri, yn gwireddu prif flaenoriaeth Cymdeithas Athletau Cymru o ran arian cenedlaethol.

## Chwaraeon Rhyngwladol

**Nick Bourne:** Pa fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael i blant ysgol er mwyn eu galluogi i gystadlu ar lefel ryngwladol mewn chwaraeon? (WAQ1767VB)

**Tom Middlehurst:** Y brif ffynhonnell ariannu ar gyfer plant ysgol i'w galluogi i gystadlu ar lefel ryngwladol yw cynllun *elite* Cymru Cyngor Chwaraeon Cymru fel y nodwyd yn ei 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'. Anfonwyd copi o'r strategaeth hon at yr Aelodau i gyd ym mis Mai 1999 ac mae ar gael hefyd yn y Llyfrgell. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn helpu 120 o athletwyr Cymreig y flwyddyn i wireddu eu potensial drwy ddyfarniadau *elite* Cymru.

## Ymwelwyr i Amgueddfeydd ac Orielau Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff Tom Middlehurst gyhoeddi manylion am nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd ac orielau Cymru yn ystod 1996, 1997 a 1998? (WAQ1768VB)

**Tom Middlehurst:** Dim ond data am yr ymwelwyr ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru sydd ar gael. Mae'r ffigurau, sydd yn adlewyrchu'r ffaith bod Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ynghau ar hyn o bryd, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1996-97 | 826,035 |
| 1997-98 | 738,790 |
| 1998-99 | 717,682 |

**Amgueddfeydd ac Orielau**

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i hybu amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru, yn enwedig ymhlith pobl ifainc? (WAQ1769VB)

**Tom Middlehurst:** Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn ceisio cynnwys plant a phobl ifainc yn eu gweithgareddau mewn nifer o ffyrdd: drwy anfon gwybodaeth drwy'r post at ysgolion a cholegau, drwy gynnal nosweithiau agored i athrawon, a thrwy baratoi deunydd sydd yn berthnasol i'r cwricwlwm. Sefydlwyd cysylltiadau gyda mudiadau ieuenctid yng Nghymru fel Urdd Gobaith Cymru, y Sgowtiaid, y Geidiaid a'r Brownies. Daeth technoleg gwybodaeth â ffyrdd newydd o gyrraedd ac ennyn diddordeb pobl ifainc yn ei sgîl. Mae poblogrwydd safle'r amgueddfa ar y we ar gynnydd ac mae'n cynnwys tudalennau a fwriadwyd yn benodol ar gyfer plant a phobl ifainc. Bydd prosiect Cambrensis, prosiect fideo-gynadledda a ariennir gan bartneriaeth gyhoeddus/preifat, yn cysylltu amgueddfeydd gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru a thu hwnt, er mwyn rhannu casgliadau ac arbenigedd. Mae'r amgueddfa hefyd yn cynnal arddangosfeydd tra phoblogaidd a fwriadwyd i ddenu cynulleidfaoedd iau fel 'Pryfed Mawr', 'Anifeiliaid Anhygoel' a 'Cuddfannau'. Yn ogystal, mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru yn hybu cysylltiadau rhwng ysgolion a'r amgueddfeydd sydd yn aelodau o'r Cyngor, yn eu mysg amgueddfeydd awdurdodau lleol, rhai annibynnol ac amgueddfeydd eraill yng Nghymru nad ydynt yn rhai cenedlaethol. Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru wedi ariannu swyddi swyddogion addysg mewn amgueddfeydd a ddewiswyd i ddatblygu cysylltiadau rhwng ysgolion ac amgueddfeydd lleol. Mae llawer o'r amgueddfeydd yn y sector hwn yn cynnig teithiau tywys a gweithdai i blant ar faterion o ddiddordeb lleol, yn cynnal ymweliadau ag ysgolion ac yn dosbarthu benthyciadau o'u casgliadau i'w hastudio gan ysgolion. Bydd pob amgueddfa yng Nghymru yn ceisio cynnwys plant a phobl ifainc ym Mis yr Amgueddfa fis Mai nesaf. Bydd hwn yn gyfle i hybu gwaith amgueddfeydd ac i lunio digwyddiadau cyffrous ac arloesol a fydd yn apelio'n benodol at gynulleidfaoedd iau.

**Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd ac Orielau**

**Nick Bourne:** Ar ba ddyddiad y bydd plant ysgol yng Nghymru yn cael mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau, a sut y bydd Tom Middlehurst yn ceisio sicrhau bod y cyfleuster hwn yn cael ei hysbysebu cyn gynted â phosibl? (WAQ1770VB)

**Tom Middlehurst:** Mae partïon ysgol sydd wedi trefnu ymlaen llaw eisoes yn cael mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Yr ydym yn ystyried sut mae ehangu'r mynediad am ddim i'r amgueddfa i bob plentyn yng nghyd-destun cylch cynllunio cyfredol y gyllideb ac yn wyneb ein haddewid yn y maniffesto.

**Lletygarwch a/neu Aelodaeth yn Nghlwb Sirol Caerdydd**

**Val Feld:** A wnaiff Tom Middlehurst roi ffigurau ar gyfer unrhyw arian a wariwyd yng Nghlwb Sirol Caerdydd gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar aelodaeth a/neu letygarwch yn ystod y pum mlynedd diwethaf? (WAQ1845JS)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf wedi gofyn i gyfarwyddwr yr Amgueddfa roi unrhyw wybodaeth berthnasol yn uniongyrchol i chi a byddaf yn trefnu bod copi o'i ateb yn cael ei roi yn y Llyfrgell.

**Cyflwyno Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Partneriaeth Leol)**

**Sue Essex:** A oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i annog cyrff yng Nghaerdydd, gan gynnwys ysgolion a cholegau, i ffurfio partneriaeth leol i gyflwyno addysg a hyfforddiant ôl-16? (WAQ1849JS)

**Tom Middlehurst:** Oes. Bwriadaf annog cyhoeddusrwydd lleol ym mhob rhan o Gymru. Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio ar hyn o bryd ar y meini prawf ar gyfer y gronfa cymell partneriaeth a fydd yn rhyddhau £7 miliwn dros dair blynedd i brosiectau sydd yn annog cydweithredu rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar draws Cymru. Caiff manylion am sut i wneud cais am gyllid eu cyhoeddi'n gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Canolfan Mileniwm Cymru (Swyddi Newydd)**

**Jonathan Morgan:** Faint o swyddi newydd y bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn eu creu? (WAQ1960VB)

**Tom Middlehurst:** Mae Canolfan Mileniwm Cymru Cyfyngedig yn amcangyfrif y bydd yn darparu gwaith parhaol i dros 350 o bobl, a bydd tua 200 o'r rheini yn swyddi newydd. Mae hefyd yn disgwyl y bydd 1,000 o bobl yn cael eu cyflogi—ar wahanol adegau—yn ystod y rhaglen adeiladu.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

**Jonathan Morgan:** A fydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn gosod terfyn ar gyfraniad ariannol y Cynulliad ar gyfer adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru? (WAQ1978VB) ***Trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.***

**Tom Middlehurst:** Yr ydym wedi cytuno y bydd y Cynulliad yn darparu £8 miliwn o arian i Ganolfan Mileniwm Cymru dros dair blynedd. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynyddu'r swm hwn.

**Niferoedd y Myfyrwyr sydd yn Rhoi'r Gorau i'w Haddysg**

**Jonathan Morgan:** A welwyd newid yn niferoedd y myfyrwyr sydd yn rhoi'r gorau i'w haddysg yng Nghymru ers Mai 1997? (WAQ1961VB)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am niferoedd y myfyrwyr sydd wedi rhoi'r gorau i'w haddysg ers Mai 1997. Mae methodoleg newydd yn cael ei chyflwyno er mwyn cyfrif y niferoedd sydd yn rhoi'r gorau i'w haddysg, i ymdrin â holl sefydliadau addysg uwch y DU a bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth ehangach o batrymau presenoldeb ymysg myfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr sydd yn newid cyrsiau neu sefydliadau, sydd yn ailadrodd blynyddoedd, neu sydd yn gadael addysg uwch am flwyddyn neu fwy cyn parhau â'u hastudiaethau.

**Caledi Ymhlith Myfyrwyr**

**Jonathan Morgan:** A wnaiff Tom Middlehurst gomisiynu astudiaeth ariannol o'r lefelau cyfredol o galedi ymhlith myfyrwyr? (WAQ1962VB)

**Tom Middlehurst:** Fel y gŵyr yr Aelod Cynulliad, yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol o safbwynt polisi am y gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r swyddogaeth hon wedi ei datganoli i'r Cynulliad. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn cynnal adolygiad o'r benthyciadau caledi a'r cronfeydd mynediad. Nod yr adolygiad yw edrych ar y ddau gynllun i bennu'r ffordd orau o ddefnyddio cyllid fel bod mwy o unigolion o grwpiau penodol, er enghraifft myfyrwyr aeddfed, yn cael mynediad i addysg uwch, ac i gefnogi myfyrwyr sydd yn wynebu caledi ariannol mewn modd amserol a rhagweithiol. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi ymgynghori'n eang a thrylwyr â'r rhai sydd yn y sector, gan ofyn i sefydliadau, gan gynnwys y rheini yng Nghymru, gwblhau arolwg byr o sut y gweithiodd y ddau gynllun y llynedd. Ymwelwyd â thrawsdoriad o sefydliadau, a oedd yn cynnwys Caerdydd, gan siarad â gweinyddwyr a myfyrwyr. Mae'r Adran Addysg hefyd wedi sefydlu gr p ymgynghorol gyda chynrychiolwyr o'r sector ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Mae Adolygiad yr Adran Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i ehangu mynediad i addysg uwch. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd eisoes ar gyfer blwyddyn academaidd 1999-2000 yn cynnwys cynnydd yn y cronfeydd mynediad yng Nghymru a Lloegr, lledu'r cynllun bwrsariaeth ac ehangu'r ddarpariaeth sydd yn esgusodi myfyrwyr yng nghyswllt myfyrwyr rhan-amser ar fudd-daliadau a myfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel rhag talu ffïoedd. Caiff unrhyw newidiadau yn deillio o'r adolygiad eu rhoi ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2000-2001. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch yr adolygiad. Fel y gwyddoch yn barod, bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn ymgymryd â chomisiwn polisi i addysg uwch yng Nghymru y flwyddyn nesaf. Bydd hwn yn sicr o ystyried y materion ehangach o safbwynt cefnogi myfyrwyr.

**Rheoli Sefydliadau Addysg Bellach (Rheolau Ychwanegol)**

**Jonathan Morgan:** A oes gan y Llywodraeth gynlluniau i dynhau ymhellach y rheolau ar gyfer rheoli sefydliadau addysg bellach yng Nghymru? (WAQ1964VB)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i dynhau ymhellach y rheolau ar gyfer rheoli sefydliadau addysg bellach. Mae Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar fesurau gweinyddol i atgyfnerthu rheolaeth a llywodraeth ariannol sefydliadau addysg bellach, rhai ohonynt a fydd yn ffurfioli trefniadau sydd yn bodoli'n barod. Dylai'r trefniadau diwygiedig fod yn eu lle yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Swyddi y Fargen Newydd (Canol De Cymru)**

**Jonathan Morgan:** Faint o swyddi newydd yn rhanbarth Canol De Cymru sydd wedi'u cymryd gan bobl y Fargen Newydd? (WAQ1968VB)

**Tom Middlehurst:** Mae polisi cyflogaeth yn fater sydd yn aros gyda Llywodraeth y DU, a'r Llywodraeth sydd yn arwain ar ariannu a chyflwyno'r Fargen Newydd. Yng Nghymru, mae'n gwneud hynny mewn partneriaeth â'r Cynulliad a'r sefydliadau eraill yng Nghymru sydd yn cyfrannu at y Fargen Newydd. Ni chesglir gwybodaeth am nifer y swyddi newydd a gymerir gan y rhai sydd ar y Fargen Newydd. Nid cynllun creu swyddi yw'r Fargen Newydd ond rhaglen gefnogi a gaiff ei theilwrio'n unigol i helpu pobl ifainc i mewn i swyddi gwirioneddol a chynaliadwy. Yn ddiweddar, paratôdd y Gwasanaeth Cyflogaeth y dadansoddiadau cyntaf o hynt y rhai a fu ar y Fargen Newydd, fesul etholaeth o'r Cynulliad. Nid oes gwybodaeth wedi ei pharatoi eto ar y niferoedd sydd yn mynd i gyflogaeth (h.y. pob math o swyddi) ond fe'i disgwylir yn fuan. Byddaf yn trefnu bod copi o'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad cyn gynted ag y bydd ar gael.

### Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach 1999 (Goblygiadau Cyfreithiol)

**Jonathan Morgan:** Pa gyngor fydd yn cael ei roi i golegau addysg bellach ynghylch goblygiadau Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (y Colegau Addysg Bellach gynt) (Diwygio'r Offeryn Llywodraethu) (Cymru) (Rhif 2) 1999 yn enwedig o safbwynt y ffaith bod clercod bellach yn atebol i gyrff llywodraethu colegau addysg bellach ac i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, a sut y bydd hyn yn effeithio ar gontractau cyflogaeth clercod? (WAQ1979VB)

**Tom Middlehurst:** Cyflwynwyd y diwygiadau i Offerynnau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach ar 11 Hydref 1999, ar ôl ymgynghori â'r sector addysg bellach, ac eraill, yng Nghymru. Nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau am gyngor yngl n â'r diwygiadau i offerynnau ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg bellach, er fy mod yn deall bod Cyngor Addysg Bellach Cymru wedi ateb nifer o ymholiadau. Mae'r Cyngor am ymgynghori â sefydliadau ar yr anghenion dewisol y bydd y newidiadau yn eu gosod ar glercod corfforaethau.

### Cymorth Ariannol ar gyfer Sgrîn

**David Davies:** A wnaiff Tom Middlehurst gyfarfod â Chyngor Celfyddydau Cymru er mwyn trafod eu cymorth ariannol ar gyfer Sgrîn? (WAQ2014VB)

**Tom Middlehurst:** Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun yw penderfynu sut mae dosbarthu ei gyllid drwyddo draw rhwng cyrff unigol, gan gynnwys Sgrîn.

### Gwariant ar Gyngor Celfyddydau Cymru

**David Davies:** Faint o arian a ragwelir a gafodd ei wario ar Gyngor Celfyddydau Cymru ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf? (WAQ2016VB)

**Tom Middlehurst:** Mae'r wybodaeth honno ar gael yn y ddogfen a gyhoeddwyd o'r enw 'Adroddiad Adrannol 1999—Cynlluniau Gwariant y Llywodraeth', y mae copi ohoni yn y Llyfrgell.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Costau Gweinyddol Ysgolion

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn eu cymryd i sicrhau bod costau gweinyddol o fewn ysgolion yn cael eu cadw at isafswm? (WAQ1656VB)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mater i'r corff llywodraethu yw dyrannu cyllideb ysgol. Rhaid i'r corff ddangos ei fod yn cadw at egwyddorion Gwerth Gorau yn ei gynlluniau cyllideb blynyddol a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod lleol. Rhaid i adroddiadau blynyddol llywodraethwyr i rieni gynnwys manylion am sut y gwariwyd yr arian a ddarparwyd gan yr awdurdod addysg lleol. Yr wyf wedi ymrwymo i ysgafnhau'r baich gweinyddol ar ysgolion. Mae Cylchlythyr 22/98 'Ysgafnhau'r Baich Biwrocrataidd ar Athrawon' a gyhoeddwyd fis Mehefin 1998 gan y Swyddfa Gymreig yn cynnwys canllawiau a gynlluniwyd i alluogi athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae gwaith ar y gweill i adolygu'r cylchlythyr a bydd fy swyddogion yn ymgynghori â'r rhai sydd â buddiant.

**Swyddi Prifathrawon**

**Nick Bourne:** Sawl swydd sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer penaethiaid parhaol mewn ysgolion Cymreig, a sawl swydd a oedd ar gael ar gyfer penodiadau o'r fath ym mis Hydref 1997 a Hydref 1998? (WAQ1657VB)

**Rosemary Butler:** Cesglir gwybodaeth am y swyddi dysgu gwag mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae nifer y swyddi gwag i brifathrawon parhaol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mis Ionawr 1997, 1998 a 1999 fel a ganlyn:

| **Nifer y swyddi gweigion i brifathrawon parhaol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mis Ionawr bob blwyddyn:** | | | |
|---|---|---|---|
| | **1997** | **1998** | **1999** |
| Pob ysgol a gynhelir (a) | 25 | 29 | 16 |

*Ffynhonnell: STAT3 (618G gynt)*
(a) Yn cynnwys pob ysgol a gynhelir â grant

## Arweiniad Ysbrydol i Blant Ysgol

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod plant ysgol yn cael arweiniad ysbrydol? (WAQ1658VB)

**Rosemary Butler:** Dylai datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion fod wrth graidd polisi ac ymarfer addysgol a bugeiliol pob ysgol a gynhelir. Ychwanegir fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, a baratowyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), at y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer addysg grefyddol, a bydd yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygiad ysbrydol a moesol pobl ifainc.

## Cristnogaeth ac Addysg Gristnogol

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod plant ysgol yn ymwybodol o Gristnogaeth ac addysg Gristnogol yn ogystal â chael gwybodaeth sylfaenol am gredoau crefyddol mewn ysgolion? (WAQ1659VB)

**Rosemary Butler:** Rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu addysg grefyddol a chydaddoliad bob dydd i bob disgybl sydd wedi ei gofrestru a hybu eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Rhaid i feysydd llafur lleol ym maes addysg grefyddol adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yw traddodiadol crefyddol Cymru gan fwyaf, tra'n cydnabod dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill. Rhaid adolygu'r meysydd llafur o dro i dro. Mae cyrff lleol yn rhoi cyngor ar addysg grefyddol a chydaddoli ac yn argymell meysydd llafur newydd. Maent yn cynrychioli grwpiau ffydd, athrawon ac awdurdodau addysg lleol.

## Ysgolion a Gaewyd

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yn Sir Benfro yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1661VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yn Sir Gaerfyrddin yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1662VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yng Ngheredigion yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1663VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd ym Mhowys yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1664VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yng Ngwynedd yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1666VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd ym Mynwy yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1668VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yng Nghonwy yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1669VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yn Sir Ddinbych yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1670VB)

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler gyhoeddi manylion niferoedd yr ysgolion a gaewyd yn Sir y Fflint yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1671VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r wybodaeth fel a ganlyn:

| **Ysgolion a Gaewyd Ers 1995** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Addysg Lleol (AALl)** | **1995** | **1996** | **1997** | **1998** |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Mynwyr | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 7 |

### Entrepreneuriaeth a Menter

**Nick Bourne:** Pa ymdrechion sydd yn cael eu gwneud i ddysgu entrepreneuriaeth a menter i bobl ifainc yn ysgolion Cymru, ac a fydd Rosemary Butler yn hyrwyddo hyn? (WAQ1674VB)

**Rosemary Butler:** Fel rhan o'r adolygiad ar y cwricwlwm cenedlaethol, ysgrifennais at ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru yr wythnos diwethaf i'w hysbysu fy mod wedi derbyn cyngor Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru i gyflwyno fframweithiau anstatudol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg sydd yn ymwneud â gwaith. Nod y naill a'r llall o'r rhain yw rhoi gwell paratoad i bobl ifainc at fyd gwaith. Mae'r fframwaith addysg sydd yn ymwneud â gwaith, yn enwedig, yn rhoi cyfleoedd i bobl ifainc 14 i 19 oed ddod yn rhan o weithgaredd menter. Bydd y fframwaith, a gyflwynir fis Medi 2000, yn cefnogi gwaith y cynghorau hyfforddi a menter sydd eisoes yn cynnig cyfleoedd i bobl ifainc mewn addysg i gymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu eu hymwybyddiaeth o sgiliau busnes a menter. Yn 1998-99, er enghraifft, cynigiwyd gweithgaredd busnes a menter gan 249 o ysgolion a cholegau yng Nghymru a bu dros 2,600 o bobl ifainc mewn 170 o ganolfannau yn cymryd rhan mewn rhaglenni menter yr ifanc. Yn y flwyddyn ariannol hon (1999-2000) mae'r Cynulliad yn darparu cyllid ychwanegol o £400,000 drwy gysylltiadau addysg a busnes y CHM, yn bennaf er mwyn datblygu ac ehangu ymhellach y cyfleoedd i gynnwys pobl ifainc mewn gweithgareddau sydd yn gwella eu dealltwriaeth o'r ffordd y mae busnes yn gweithredu a'u galluogi i feithrin sgiliau entrepreneuriaeth sylfaenol.

### Dyfodol Safon Uwch

**Nick Bourne:** A wnaiff Rosemary Butler datganiad yngl n â pholisi Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol safon Uwch yng Nghymru. (WAQ1831VB)

**Rosemary Butler:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ1031, sydd wedi ei gopïo isod:

'Mae gan gymwysterau TAG safon Uwch enw da haeddiannol a sefydledig am ansawdd a safonau uchel. Yr ydym wedi ymrwymo i gynnal ansawdd a chywirdeb pob cymhwyster. Mae'r canlyniadau diweddar yn cynrychioli cyflawniad ardderchog gan fyfyrwyr a'u hathrawon. Ochr yn ochr â chymwysterau eraill, fel GNVQ a NVQ, mae safon Uwch yn cynrychioli set rymus o gymwysterau a gydnabyddir ac a werthfawrogir gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

Mae'r papur ymgynghorol 'Cymhwyso ar gyfer Llwyddiant' yn amlinellu'n cynlluniau i ychwanegu lled at astudiaethau ôl-16 drwy ledu afon Uwch hybu cymwysterau galwedigaethol a'u hategu â sgiliau allweddol a safonau llym. Wedi'r ymgynghori hwn, o fis Medi 2000 byddwn yn cyflwyno cymwysterau safon AS newydd, safon Uwch diwygiedig, ynghyd â chymhwyster newydd mewn sgiliau allweddol. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi myfyrwyr i astudio rhaglenni lletach, gan gyfuno astudiaethau academaidd a galwedigaethol, tra'n cadw safonau.'

## Gwybodaeth fesul Awdurdod Addysg Lleol

**Jonathan Morgan:** A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn y tablau ar gyfer WAQ1235VB ar gael fesul awdurdod addysg lleol yn hytrach na fesul rhanbarth etholiadol ac, os ydyw, a fyddai'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn barod i ddarparu'r wybodaeth honno? (WAQ1861VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r wybodaeth am faint dosbarthiadau a ddarparwyd ar gyfer WAQ1235VB ar gael fesul awdurdod addysg lleol. Dengys tabl 1 faint dosbarthiadau ar gyfartaledd mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl cyfnod allweddol ac fesul awdurdod addysg lleol. Rhydd tabl 2 wybodaeth debyg am ysgolion uwchradd a gynhelir.

**Tabl 1: Maint dosbarthiadau ar gyfartaledd o ran dosbarthiadau a gofrestrwyd mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl cyfnod allweddol, fesul awdurdod lleol.**

| | | **Dosbarthiadau cyffredin** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 | Cyfnod Allweddol Cymysg | Pob dosbarth cyffredin | Pob dosbarth a gofrestrwyd (a) |
| Blaenau Gwent | 1997 | amh | amh | amh | amh | 26.9 |
| | 1998 | 28.5 | 30.1 | 29.0 | 29.3 | 27.9 |
| | 1999 | 25.7 | 29.8 | 28.4 | 28.0 | 26.4 |
| | | | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.8 |
| | 1998 | 29.3 | 30.5 | 30.6 | 30.1 | 28.7 |
| | 1999 | 27.2 | 29.7 | 27.2 | 28.5 | 27.2 |
| | | | | | | |
| Caerffili | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.3 |
| | 1998 | 28.9 | 29.2 | 28.7 | 29.1 | 27.5 |
| | 1999 | 26.4 | 28.9 | 28.6 | 27.8 | 26.5 |
| | | | | | | |
| Caerdydd | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.8 |
| | 1998 | 27.9 | 28.9 | 29.1 | 28.5 | 28.0 |
| | 1999 | 26.2 | 28.6 | 26.4 | 27.5 | 27.1 |
| | | | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 1997 | amh | amh | amh | amh | 22.8 |
| | 1998 | 22.3 | 23.5 | 22.2 | 22.9 | 22.6 |
| | 1999 | 22.6 | 23.9 | 22.8 | 23.2 | 22.9 |
| | | | | | | |
| Ceredigion | 1997 | amh | amh | amh | amh | 21.0 |
| | 1998 | 20.7 | 22.4 | 19.2 | 21.1 | 21.2 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1999 | 20.6 | 21.9 | 17.4 | 20.7 | 20.8 |
| | | | | | | |
| Conwy | 1997 | amh | amh | amh | amh | 25.1 |
| | 1998 | 26.2 | 27.2 | 23.2 | 26.6 | 26.2 |
| | 1999 | 25.5 | 27.2 | 21.9 | 26.2 | 25.9 |
| | | | | | | |
| Sir Ddinbych | 1997 | amh | amh | amh | amh | 25.9 |
| | 1998 | 27.3 | 27.7 | 25.4 | 27.3 | 26.8 |
| | 1999 | 24.8 | 27.6 | 21.8 | 26.1 | 25.5 |
| | | | | | | |
| Sir y Fflint | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.1 |
| | 1998 | 29.1 | 29.8 | 28.8 | 29.4 | 28.9 |
| | 1999 | 26.1 | 28.0 | 28.2 | 27.3 | 26.7 |
| | | | | | | |
| Gwynedd | 1997 | amh | amh | amh | amh | 21.5 |
| | 1998 | 25.1 | 25.0 | 22.6 | 24.7 | 24.2 |
| | 1999 | 24.7 | 24.9 | 21.0 | 24.1 | 23.8 |
| | | | | | | |
| Ynys Môn | 1997 | amh | amh | amh | amh | 22.9 |
| | 1998 | 24.0 | 24.6 | 22.7 | 24.2 | 23.6 |
| | 1999 | 23.0 | 24.2 | 24.4 | 23.8 | 23.3 |
| | | | | | | |
| Merthyr Tudful | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.1 |
| | 1998 | 27.6 | 28.9 | 27.9 | 28.2 | 26.8 |
| | 1999 | 25.3 | 28.3 | 27.5 | 27.0 | 25.7 |
| | | | | | | |
| Sir Fynwy | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.9 |
| | 1998 | 27.3 | 29.4 | 27.9 | 28.4 | 27.9 |
| | 1999 | 25.5 | 29.5 | 27.2 | 27.7 | 27.1 |
| | | | | | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 1997 | amh | amh | amh | amh | 25.1 |
| | 1998 | 26.3 | 26.8 | 25.9 | 26.4 | 25.3 |
| | 1999 | 24.6 | 27.1 | 25.3 | 25.8 | 24.7 |
| | | | | | | |
| Casnewydd | 1997 | amh | amh | amh | amh | 28.6 |
| | 1998 | 28.4 | 30.1 | 29.8 | 29.4 | 28.6 |
| | 1999 | 26.0 | 29.3 | 27.9 | 27.8 | 27.3 |
| | | | | | | |
| Sir Benfro | 1997 | amh | amh | amh | amh | 24.0 |
| | 1998 | 22.9 | 24..6 | 21.2 | 23.6 | 23.6 |
| | 1999 | 22.3 | 25.0 | 23.1 | 23.7 | 23.8 |
| | | | | | | |
| Powys | 1997 | amh | amh | amh | amh | 22.7 |
| | 1998 | 22.3 | 24.1 | 24.4 | 23.5 | 23.1 |
| | 1999 | 21.8 | 23.7 | 21.0 | 22.7 | 22.4 |
| | | | | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 1997 | amh | amh | amh | amh | 26.9 |
| | 1998 | 27.6 | 28.8 | 29.1 | 28.3 | 27.0 |
| | 1999 | 26.6 | 28.0 | 26.9 | 27.3 | 26.2 |
| | | | | | | |
| Abertawe | 1997 | amh | amh | amh | amh | 26.1 |
| | 1998 | 27.3 | 28.6 | 27.2 | 27.9 | 27.1 |
| | 1999 | 25.4 | 29.1 | 26.9 | 27.3 | 26.3 |
| | | | | | | |
| Bro Morgannwg | 1997 | amh | amh | amh | amh | 26.8 |
| | 1998 | 27.1 | 28.6 | 28.8 | 28.0 | 27.3 |
| | 1999 | 25.6 | 28.2 | 28.1 | 27.1 | 26.3 |
| | | | | | | |
| Tor-faen | 1997 | amh | amh | amh | amh | 27.6 |
| | 1998 | 28.8 | 30.4 | 24.2 | 29.2 | 28.0 |
| | 1999 | 26.5 | 28.5 | 24.7 | 26.4 | 26.7 |
| | | | | | | |
| Wrecsam | 1997 | amh | amh | amh | amh | 26.2 |
| | 1998 | 27.9 | 28.6 | 26.0 | 28.0 | 26.9 |
| | 1999 | 24.7 | 28.0 | 24.7 | 26.4 | 25.7 |
| | | | | | | |
| **Cymru** | 1997 | amh | amh | amh | amh | 25.9 |
| | 1998 | 26.7 | 27.8 | 25.8 | 27.1 | 26.4 |
| | 1999 | 25.1 | 27.4 | 24.7 | 26.2 | 25.6 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion fis Ionawr bob blwyddyn*

(a) Yn cynnwys pob dosbarth cyffredin, meithrin ac arbennig sydd wedi ei gofrestru

**(b) Tabl 2: Maint dosbarthiadau ar gyfartaledd o ran dosbarthiadau a gofrestrwyd mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, fesul awdurdod lleol (a)**

| | | Blynyddoedd 7 i 11 | Blynyddoedd 12 a 13 | Pob dosbarth |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1997 | 21.2 | 12.3 | 20.0 |
| | 1998 | 21.3 | 9.0 | 19.3 |
| | 1999 | 20.8 | 9.6 | 19.5 |
| | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1997 | 22.9 | 13.8 | 21.1 |
| | 1998 | 23.0 | 15.8 | 21.7 |
| | 1999 | 22.9 | 11.7 | 20.7 |
| | | | | |
| Caerffili | 1997 | 22.1 | 12.2 | 20.8 |
| | 1998 | 22.1 | 10.4 | 20.5 |
| | 1999 | 22.5 | 11.2 | 20.9 |
| | | | | |
| Caerdydd | 1997 | 22.6 | 19.8 | 22.3 |
| | 1998 | 23.8 | 14.8 | 22.5 |
| | 1999 | 24.2 | 17.0 | 23.2 |
| | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 1997 | 22.7 | 11.9 | 20.9 |
| | 1998 | 23.0 | 11.1 | 20.9 |
| | 1999 | 22.2 | 13.5 | 20.8 |
| | | | | |
| Ceredigion | 1997 | 20.5 | 15.9 | 19.6 |
| | 1998 | 21.2 | 14.5 | 19.7 |
| | 1999 | 19.7 | 13.1 | 18.2 |
| | | | | |
| Conwy | 1997 | 22.9 | 13.8 | 21.1 |
| | 1998 | 22.5 | 13.8 | 20.8 |
| | 1999 | 23.8 | 14.9 | 22.1 |
| | | | | |
| Sir Ddinbych | 1997 | 21.4 | 13.9 | 20.1 |
| | 1998 | 22.3 | 10.2 | 19.9 |
| | 1999 | 21.6 | 14.1 | 20.3 |
| | | | | |
| Sir y Fflint | 1997 | 22.9 | 12.2 | 20.8 |
| | 1998 | 22.5 | 11.3 | 20.1 |
| | 1999 | 21.9 | 11.5 | 19.8 |
| | | | | |
| Gwynedd | 1997 | 18.7 | 10.9 | 17.8 |
| | 1998 | 19.1 | 9.5 | 17.7 |
| | 1999 | 19.1 | 10.9 | 18.1 |
| | | | | |
| Ynys Môn | 1997 | 21.2 | 14.9 | 20.1 |
| | 1998 | 21.3 | 11.8 | 19.5 |
| | 1999 | 21.7 | 15.2 | 20.5 |
| | | | | |
| Merthyr Tudful | 1997 | 21.2 | 11.7 | 19.3 |
| | 1998 | 21.8 | 9.6 | 19.2 |
| | 1999 | 21.6 | 13.4 | 20.2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sir Fynwy | 1997 | 21.9 | 13.0 | 19.7 |
| | 1998 | 21.0 | 17.0 | 20.2 |
| | 1999 | 22.9 | 15.8 | 21.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1997 | 21.3 | 12.6 | 20.8 |
| | 1998 | 21.3 | 12.4 | 20.9 |
| | 1999 | 21.4 | 12.4 | 21.1 |
| | | | | |
| Casnewydd | 1997 | 22.6 | 15.4 | 21.4 |
| | 1998 | 23.6 | 12.4 | 21.4 |
| | 1999 | 24.0 | 12.2 | 21.8 |
| | | | | |
| Sir Benfro | 1997 | 22.4 | 13.7 | 20.4 |
| | 1998 | 24.2 | 13.5 | 21.5 |
| | 1999 | 23.2 | 12.1 | 20.5 |
| | | | | |
| Powys | 1997 | 19.7 | 9.9 | 17.5 |
| | 1998 | 20.0 | 10.1 | 17.7 |
| | 1999 | 19.9 | 10.9 | 17.8 |
| | | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 1997 | 22.3 | 11.9 | 20.4 |
| | 1998 | 22.5 | 11.4 | 20.5 |
| | 1999 | 22.8 | 11.4 | 20.6 |
| | | | | |
| Abertawe | 1997 | 21.5 | 12.2 | 20.5 |
| | 1998 | 22.0 | 13.4 | 21.0 |
| | 1999 | 22.1 | 11.4 | 20.8 |
| | | | | |
| Bro Morgannwg | 1997 | 22.4 | 16.4 | 21.4 |
| | 1998 | 23.9 | 15.3 | 22.4 |
| | 1999 | 22.9 | 12.5 | 21.0 |
| | | | | |
| Torfaen | 1997 | 22.5 | 12.5 | 21.2 |
| | 1998 | 22.4 | 12.2 | 21.0 |
| | 1999 | 22.3 | 12.5 | 21.2 |
| | | | | |
| Wrecsam | 1997 | 22.9 | 7.2 | 21.8 |
| | 1998 | 22.9 | 8.6 | 22.0 |
| | 1999 | 23.7 | 8.6 | 22.7 |
| | | | | |
| **Cymru** | **1997** | **21.9** | **13.2** | **20.6** |
| | **1998** | **22.3** | **12.3** | **20.6** |
| | **1999** | **22.3** | **12.7** | **20.7** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion fis Ionawr bob blwyddyn*

(a) Mae'r ffigurau i gyd yn cyfeirio at faint y grwpiau dysgu yn ystod cyfnod penodol yn amserlen yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrif.

**Gwahaniaethau Rhwng Cyflogau (Tâl yn ôl Perfformiad)**

**Jonathan Morgan:** Sut mae Rosemary Butler yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwahaniaethau posibl rhwng cyflogau dirprwy benaethiaid a chyflogau athrawon a wobrwyir o dan y cynllun tâl yn ôl perfformiad newydd? (WAQ1965VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl ar ddiwygio cyflogau i Gorff Adolygu'r Athrawon, a fydd yn ystyried tystiolaeth gan gyrff eraill y mae gofyniad statudol i ymgynghori â hwy cyn adrodd yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth. Fel rhan o'r broses hon, gofynnwyd i Gorff Adolygu'r Athrawon ystyried y berthynas rhwng y colofnau cyflogau i ddirprwy benaethiaid a'r golofn gyflogau uchaf i athrawon dosbarth, wrth lunio ei argymhellion.

### Methu Bodloni Targedau (Cymorth i Athrawon)

**Jonathan Morgan:** Pa gynigion sydd gan Rosemary Butler i helpu athrawon sydd yn methu'n gyson â chyrraedd y targedau perfformiad cenedlaethol? (WAQ1966VB)

**Rosemary Butler:** Yr ydym wedi dweud y bydd penderfyniadau ysgolion ar bwyntiau cyflog tu hwnt i'r trothwy yn cael eu goleuo gan ganlyniadau'r adolygiad perfformiad. Ond ni ddylid cyfyngu penderfyniadau cyflog i gyflawni'r amcanion a bennwyd gan y fframwaith rheoli perfformiad yn unig. Mae amcanion yn werthfawr iawn er mwyn sefydlu disgwyliadau clir ond ni fyddant o reidrwydd ynddynt eu hunain yn ymdrin â chyfraniad athro yn ei gyfanrwydd. Rhaid inni adael i ysgolion unigol farnu yn ôl eu doethineb eu hunain a yw athrawon mewn gwirionedd wedi llwyddo mewn modd sydd yn haeddu codiadau cyflog tu hwnt i'r trothwy. Mae'r adolygiad blynyddol o dan y system rheoli perfformiad yn gyfle i'r athro a'r arweinydd tîm bwyso a mesur perfformiad yr athro mewn ffordd strwythuredig, cydnabod yr hyn a gyflawnwyd a thrafod meysydd lle mae angen gwella a datblygu'n broffesiynol. Dylai hyn gynnwys dod o hyd i feysydd ar gyfer datblygu a sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu, a chydnabod anghenion datblygu personol. Bwriadwn osod fframwaith clir ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd yn dod â blaenoriaethau Cymru-gyfan, blaenoriaethau ysgolion a blaenoriaethau unigol ynghyd i helpu pob athro i godi safonau yn y dosbarth ac i symud ymlaen o fewn y strwythur gyrfaol newydd. Caiff y rhaglen grantiau ar gyfer cefnogi addysg a hyfforddiant ei hehangu'n sylweddol hyd at gyfanswm o £100 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf, heb gynnwys yr arian ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau.

### Gofynion Cynllun Tâl yn ôl Perfformiad (Colli Oriau)

**Jonathan Morgan:** Faint o oriau dysgu a gollir pan fydd athrawon yn ymgymryd â'r gwaith asesu sydd ynghlwm â'r cynllun tâl yn ôl perfformiad? (WAQ1967VB)

**Rosemary Butler:** Mae'r cynigion ar gyfer rheoli perfformiad yn adeiladu ar yr ymarfer a'r systemau gorau sydd yn bodoli'n barod. Mae gan athrawon hawl i ddisgwyl y caiff eu perfformiad ei asesu'n rheolaidd ac y cânt gyfle priodol i gynnal trafodaeth broffesiynol gyda'i harweinydd tîm am eu gwaith a'u datblygiad proffesiynol. Sefydlwyd trefniadau gwerthuso ers nifer o flynyddoedd. Mae trefniadau i osod targedau, monitro ac arfarnu wedi hen ennill eu plwyf mewn nifer o ysgolion.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Rhestrau Aros

**Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i gwtogi rhestrau aros ac amseroedd aros yng Nghymru? (WAQ1584VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Disgrifiwyd y prosiectau sydd ar waith eleni yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Medi, y mae copïau ohono ar gael ar y fewnrwyd. Eleni, darparwyd £19 miliwn i'r awdurdodau iechyd ar sail flwyddyn ar ôl blwyddyn i'w helpu i barhau'r â'u

gwaith i gwtogi rhestrau aros. Mae'r Cynulliad hefyd yn cyllido nifer o gynlluniau sydd â'r nod o wella'r rheolaeth ar restrau aros, fel rhan o batrwm gweithredu tymor hir a fydd yn cynnwys mesurau i wella'r gwaith o flaenoriaethu cleifion ar restrau aros, y modd y rheolir gwasanaethau cleifion allanol a'r berthynas rhwng yr NHS ac asiantaethau eraill. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â rhestrau ac amserau aros a bydd pob plaid yn y Cynulliad a phob buddiolwr allweddol yn cael cyfle i gyfrannu ati.

### Gwasanaeth 24 Awr

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt hybu mesurau i sicrhau bod gwasanaeth 24 awr ar gael ym mhob gorsaf ambiwlans yng Nghymru? (WAQ1690VB)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi gofyn i Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sicrhau bod gwasanaeth 24 awr ar gael ar hyd a lled Cymru. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaeth yw pennu'r dull mwyaf priodol o ddarparu'r gwasanaeth hwn, naill ai drwy ddefnyddio gorsafoedd lle mae rhywun ar ddyletswydd yn barhaus, drwy systemau aros galwad neu drwy leoli ambiwlansys mewn modd deinamig.

### Urddau Cyfeillion

**Nick Bourne:** A oes asesiad wedi'i gynnal o gyfraniad ariannol yr Urddau Cyfeillion i ysbytai ledled Cymru ac, os oes, a wnaiff Jane Hutt gyhoeddi'r manylion? (WAQ1691VB)

**Jane Hutt:** Mae Urddau Cyfeillion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr, yn ariannol ac fel arall, i wella ansawdd bywyd cleifion mewn ysbytai. Mater i'r Urddau, mewn trafodaeth gydag Ymddiriedolaethau'r NHS, yw pennu lefel a ffurf y cyfraniad.

### Ysbyty Plant

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt gyhoeddi cynnig y mae hi'n ei gyflwyno ar gyfer sefydlu ysbyty plant yng Nghymru? (WAQ1692VB)

**Jane Hutt:** Mae'r cynnig i sefydlu ysbyty i blant yng Nghymru yn cael ei ddatblygu gan Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau. Caiff cynnig yr Ymddiriedolaeth ei gyflwyno i'r Cynulliad i'w gymeradwyo ar ffurf achos busnes amlinellol. Ar yr amod y caiff gymeradwyaeth, bydd copïau o'r ddogfen ar gael oddi wrth yr Ymddiriedolaeth.

### Rhestrau Aros am Driniaeth y Galon

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt gyhoeddi cynigion ar gyfer delio â phroblem gynyddol y rhestrau aros am driniaeth y galon yng Nghymru? (WAQ1693VB)

**Jane Hutt:** Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaethau triniaeth y galon i oedolion ledled Cymru, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol wedi cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ddiweddar yn nodi ei gyngor a'i argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth hwn. Mae'r Cynulliad wedi darparu £19 miliwn ar sail flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn rheoli rhestrau aros o 1999-2000 ymlaen. Mae hyn yn rhan o gynnydd diamod o £148 miliwn i'r awdurdodau iechyd eleni, sydd 10.5 y cant yn fwy nag yn 1998-99. Caiff yr angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau triniaeth y galon ar gyfer oedolion ei hystyried ochr yn ochr â phwysau a blaenoriaethau eraill. Yn 1999-2000, cynhaliwyd trafodaethau gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran yr holl Ymddiriedolaethau gan ddod i gytundeb fel bod cleifion o Gymru yn cael eu trin mewn canolfannau yn Lloegr.

## Triniaeth Dialysis yr Arennau

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt fanylu ar ba ysbytai yng Nghymru sydd yn cynnig triniaeth dialysis yr arennau, ac a fydd ysbytai eraill yn gallu cynnig triniaeth o'r fath yn y flwyddyn 2000? (WAQ1694VB)

**Jane Hutt:** Nid chesglir y wybodaeth hon yn ganolog ond gwyddom fod yr ysbytai isod yn darparu gwasanaeth hemodialysis i drin methiant ar yr arennau yn y cyfnod terfynol:

Ysbyty Maelor, Wrecsam
Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan
Ysbyty Gwynedd, Bangor
Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin
Ysbyty'r Tywysog Charles, Merthyr Tudful
Ysbyty Treforys, Abertawe
Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd
Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd

Mater i bob awdurdod iechyd yw asesu'r angen yn lleol a, chan weithio gyda darparwyr gwasanaethau gofal iechyd ac eraill, gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r angen hwnnw. Mae cyfradd y ddarpariaeth fesul miliwn o boblogaeth yng Nghymru yn well nag i'r DU yn ei chyfanrwydd a deallaf fod nifer o'r awdurdodau iechyd ar hyn o bryd yn ystyried cynyddu'r ddarpariaeth ymhellach.

## Ffyrdd Iach o Fyw

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i hybu ffyrdd iach o fyw yng Nghymru? (WAQ1695VB)

**Jane Hutt:** Mae ffordd person o fyw yn cael dylanwad sylweddol ar ei iechyd ef neu ei hiechyd hi. Effeithir ar ffyrdd unigolion o fyw gan amgylchiadau teuluol, amodau byw a gweithio, a'r amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol-economaidd ehangach. Mae gweithredu er mwyn hybu ffyrdd iach o fyw yn faes allweddol o fewn fframwaith strategol Gwell Iechyd, Gwell Cymru. Cynhelir ystod eang o weithgareddau ar lefel leol ledled Cymru. Mae'r cynlluniau isod yn cael eu gweithredu drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd:

Rheoli Tybaco: Mae'r Cynulliad yn ymgymryd â rhaglen waith gynhwysfawr i roi'r Papur Gwyn ar dybaco ar waith yng Nghymru. Rhoddwyd manylion llawn y rhaglen hon yn fy araith agoriadol ar dybaco yn y Sesiwn Llawn ar 13 Hydref, ac ymdriniwyd â hwy yn fy ymateb i WAQ1698VB.

Strategaeth Iechyd Rhyw: Mae strategaeth ddrafft i hyrwyddo iechyd rhyw a gostwng cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a heintiau a drosglwyddir drwy ryw i'w cyflwyno gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddarach eleni.

Safonau, Maeth a Diogelwch Bwyd: Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i hyrwyddo bwyta'n iach. Disgwylir y bydd y Mesur Safonau Bwyd yn cael y Gydsyniaeth Frenhinol ym mis Tachwedd. Mae'r gwaith o sefydlu'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'i changen weithredol yng Nghymru yn mynd rhagddo'n dda. Disgwylir sefydlu'r Asiantaeth yn ystod hanner cyntaf 2000.

Strategaeth Cyffuriau ac Alcohol: Mae'r strategaeth gyfredol ar gyffuriau ac alcohol yng Nghymru, 'Ymlaen gyda'n Gilydd', yn cael ei hailwampio ar hyn o bryd yng ngoleuni'r strategaeth gwrth-gyffuriau newydd y DU. Caiff y strategaeth i Gymru ei lansio ar ei newydd wedd yn gynnar yn 2000.

Gweithgarwch, Chwaraeon ac Ymarfer Corfforol: Mae'r Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, ac yn rhoi cefnogaeth ariannol tuag at weithgareddau craidd y Cyngor. Bwriadwyd nod y Cyngor Chwaraeon o 'Chwaraeon i Bawb' i hybu iechyd da drwy sefydlu cyfleoedd adloniant a chystadlu i bawb yng nghymunedau Cymru. Mae strategaeth gyfredol y Cyngor, 'Pobl Ieuainc yn Gyntaf', yn targedu pobl ifainc yn benodol ac yn cyflwyno ystod o gynlluniau a fwriadwyd yn benodol i annog plant i gymryd rhan. Byddaf yn cyflwyno manylion am waith y Cyngor gyda phlant oed ysgol yn fy ateb i WAQ1707VB.

Iechyd Meddwl: Mae'r Cynulliad wedi cynnull dau gr p amlddisgyblaethol i ddatblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer oedolion, plant a'r rhai yn eu harddegau. Bydd y dogfennau hyn, sydd i gael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn gynnar yn 2000, yn cynnig fframwaith strategol ar gyfer hybu iechyd meddwl.

Strategaeth Hybu Iechyd: Bydd y strategaeth iechyd meddwl, a gaiff ei hystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cynnig darlun cyffredinol o'r camau i'w cymryd i hybu ffyrdd iach o fyw. Ar warthaf y strategaeth, yn gynnar yn 2000, ceir cynllun gweithredu treigl dros dair blynedd i hybu iechyd, a bydd y cynllun hwn yn adlewyrchu'r strategaethau eraill y cyfeiriwyd atynt uchod.

## Amddiffyn rhag y Ffliw

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i sicrhau bod pobl oedrannus yn cael eu hamddiffyn rhag y ffliw y gaeaf hwn? (WAQ1696VB)

**Jane Hutt:** Ymgymerwyd yn ddiweddar ag ymgyrch gyhoeddusrwydd i rybuddio'r cyhoedd am symptomau'r ffliw. Ym mis Awst, dosbarthwyd taflenni a phosteri ledled y wlad i feddygfeydd meddygon teulu, fferyllfeydd cymuned, ysbytai a chanolfannau cynghori i roi gwybod am y camau i'w cymryd i liniaru effeithiau'r ffliw. Ar yr un pryd, atgoffwyd meddygon teulu ei bod yn bwysig cynnig brechiad i'r rhai sydd yn fwyaf tebygol o ddioddef salwch difrifol os cânt y ffliw gan gynnwys y rhai o bob oed sydd â salwch anadlu cronig; clefyd cronig ar y galon; clefyd cronig ar yr arennau; gwrthimiwnedd a chlefyd siwgr. Yn ddiweddar, mae pawb sydd dros 75 oed hefyd wedi ei ychwanegu at y categorïau risg.

## Amddiffyn rhag Llid yr Ymennydd

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i amddiffyn pobl, yn enwedig pobl ifanc, rhag llid yr ymennydd yng Nghymru? (WAQ1697VB)

**Jane Hutt:** Mae ymgyrch imiwneiddio gynhwysfawr ar y gweill i amddiffyn plant rhag yr haint meningococaidd C. Targedwyd y rhaglen frechu yn ôl ffactorau risg, yn bennaf ar sail oedran. Yn y lle cyntaf, mae'r brechiad ar gael i bobl ifainc sydd yn mynychu addysg uwch. Bellach, mae'r rhan yma o'r rhaglen bron â'i chwblhau. Bydd ail ran y rhaglen, sydd i ddechrau yn gynnar ym mis Tachwedd, yn amddiffyn plant rhwng 2 fis a 17 oed. Mae cyflwyno'r brechiad newydd hwn i mewn i'r rhaglen imiwneiddio i blant yn ddatblygiad pwysig ac yn un a ddaw â ni gam yn nes at gael gwared ag afiechydon sydd yn lladd. Fel rhan o'r rhaglen arferol barhaus i frechu plant er mwyn eu himiwneiddio, atgoffir rhieni a chynhalwyr o bwysigrwydd bod yn ymwybodol o'r symptomau i fod ar eu gwyliadwriaeth amdanynt yng nghyswllt mathau eraill o lid yr ymennydd nad oes brechiad ar gael ar eu cyfer.

## Sigarennau a Thybaco

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i annog pobl i beidio â defnyddio sigarennau a thybaco yng Nghymru? (WAQ1698VB)

**Jane Hutt:** Cyhoeddodd y Llywodraeth y Papur Gwyn ar dybaco, 'Mae Smygu yn Lladd', fis Rhagfyr diwethaf fel arwydd o'i hymroddiad i fynd i'r afael â'r epidemig tybaco. Mae'r Papur Gwyn wedi cael croeso eang gan ei fod yn ymdrin â materion ysmygu mewn ffordd mor gynhwysfawr. Mae rhai o'r mesurau yn y Papur Gwyn yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymgynghoriad y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar god ymarfer newydd i'w gymeradwyo ar ysmygu yn y gweithle;
- Addewid i gynyddu'r dreth ar dybaco o 5 y cant o leiaf bob blwyddyn;
- Ymgyrch fawr yn erbyn smyglo tybaco;
- Rhoi ar waith Gyfarwyddeb yr UE ar ddod â hysbysebu a hybu tybaco a nawdd gan gwmnïau tybaco i ben.

Fel y nodais yn fy araith yn nadl y Sesiwn Llawn ar dybaco ar 13 Hydref, mae nifer o fesurau rheoli tybaco yn cael eu datblygu yng Nghymru sydd yn mynd i'r afael â'r tri maes gweithredu allweddol a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Yn gryno, dyma'r meysydd: Atal plant a phobl ifainc rhag dechrau ysmygu:

- Ehangu'r prosiect *'Smokebuster*s' i glybiau plant ar gyfer rhai 9 i 11 oed, a rhoi ffocws newydd iddo;
- Datblygu dau brosiect atal ar gyfer ysgolion uwchradd, cystadleuaeth y dosbarth di-fwg a grwpiau gweithredu ar dybaco;
- Dosbarthu deunyddiau dysgu newydd i ysgolion uwchradd ar reoli tybaco;
- Ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar beryglon ysmygu;
- Datblygu deunyddiau briffio i adwerthwyr i'w helpu i gynnal y gyfraith yng nghyswllt gwerthu cynnyrch tybaco i bobl ifainc dan 16.

Helpu pobl ifainc ac oedolion i roi'r gorau i ysmygu:

- Dyrannu hanner miliwn o bunnoedd eleni i ddatblygu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu newydd sydd i'w cyflwyno drwy'r NHS yng Nghymru. Caiff y cyllid ei gynyddu dros y ddwy flynedd nesaf, wrth i'r gwasanaethau ddatblygu.
- Ymgyrch rhoi'r-gorau-i-ysmygu dan arweiniad y cyfryngau, sef her rhoi'r gorau iddi a threchu ledled Cymru;
- Sefydlu llinell gymorth rhoi'r gorau i ysmygu rad ac am ddim;
- Sefydlu prosiect peilot rhoi'r gorau i ysmygu ar gyfer rhai yn eu harddegau;
- Parhau i gefnogi ymgyrch diwrnod dim ysmygu y DU;
- Creu amgylchedd di-fwg;
- Datblygu cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer mannau cyhoeddus di-fwg yng Nghymru.

### Rhybuddio am Oryfed Alcohol

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i rybuddio'r cyhoedd o beryglon goryfed alcohol? (WAQ1699VB)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad wedi datblygu a dosbarthu ystod eang o adnoddau atal camddefnyddio sylweddau sydd yn cynnwys gwybodaeth ar alcohol a'r peryglon o'i gamddefnyddio. Yn eu mysg mae *'The A File*s', taflen alcohol maint CD a fwriadwyd ar gyfer rhai 11 i 16 oed ac *'Alcofact*s', llyfryn sydd yn tynnu sylw at beryglon goryfed alcohol gan roi canllawiau yfed yn ddoeth. Mae'r mesurau eraill yn cynnwys cyfraniad ariannol gan y Cynulliad i'r adran iechyd er mwyn gweithredu'r llinell gymorth alcohol genedlaethol yng Nghymru a gwaith mewn partneriaeth â'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr o beryglon camddefnyddio alcohol ac i hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau alcohol ar gyfer y gweithle.

## Hypothermia

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i sicrhau bod y cyhoedd (yn enwedig yr henoed) yn ymwybodol o beryglon hypothermia y gaeaf hwn? (WAQ1700VB)

**Nick Bourne:** Faint o farwolaethau a briodolwyd i hypothermia yn 1996, 1997 a 1998, a beth sydd ar y gweill i ostwng y ffigur hwn? (WAQ1701VB)

**Jane Hutt:** Mae nifer y marwolaethau a briodolwyd i hypothermia fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Nifer y marwolaethau |
|---|---|
| 1996 | 27 |
| 1997 | 14 |
| 1998 | 25 |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Nodyn: Mae'r ffigurau'n cyfeirio at farwolaethau ymysg trigolion arferol Cymru lle cyfeirir at hypothermia ar y dystysgrif marwolaeth*

Mae nifer o fesurau ar y gweill i ostwng y ffigurau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyrch sydd yn cael ei chynnal ar ran y Cynulliad gan Ofal Henoed Cymru, yn lledaenu gwybodaeth bwysig am gadw'n gynnes mewn tywydd oer, sydd wedi ei thargedu'n bennaf at bobl h n a grwpiau eraill bregus. Neges pennaf yr ymgyrch eleni yw 'Effeithlonrwydd Ynni' a bydd yn cynnwys cyngor a gwybodaeth ar sut i gadw'r cartref a chi eich hun yn gynnes a sut i gael help i wneud y cartref yn fwy effeithlon yn y ffordd y mae'n defnyddio ynni. Caiff rhifau llinell gymorth eu cynnwys hefyd ynghyd â thermomedr ystafell.

Mae'r ymgyrch mewn dwy ran, sef rhaglen wybodaeth ac ymgynghori a chynnal cynhadledd. Bydd y rhaglen wybodaeth yn cynnwys cyhoeddi a dosbarthu llyfrynnau dwyieithog 'Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach' i bobl hŷn a'u cynhalwyr, gyda thapiau sain i'r rheini sydd â nam ar eu golwg. Cânt eu dosbarthu'n eang ledled Cymru, gan ddefnyddio grwpiau Gofal Henoed, asiantaethau statudol, mudiadau gwirfoddol, eglwysi, asiantaethau ynni a Chyngor Cymru i'r Deillion. Mae'r ymgynghori a'r gynhadledd yn gwireddu argymhelliad o werthusiad y flwyddyn flaenorol o'r ymgyrch i gael cynhadledd Cymru-gyfan ar dlodi tanwydd a'r henoed. Dylai ennyn cyfranogiad o blith ystod eang o ddarparwyr gwasanaeth a mudiadau henoed ledled Cymru, a dylai gynnwys trafodaeth ar ffyrdd o gyrraedd y bobl oedrannus hynny sydd fwyaf tebygol o gael hypothermia.

Mae'r ymgyrch eleni yn derbyn grant o £40,000 gan y Cynulliad (£35,000 ar gyfer y rhaglen wybodaeth a £5,000 ar gyfer y gynhadledd ymgynghorol). Mae SWALEC yn talu am gynnwys thermomedrau ystafell hyd at swm o £10,200. Mae'r ymgyrch i ddechrau yn fuan. Yn ogystal, mae Cymorth yr Henoed yn cynnal llinell ffôn radffon drwy'r DU gyda chyllid oddi wrth yr adran addysg i roi cyngor ar faterion cadw'n gynnes yn y gaeaf gan gynnwys: deiet, ymarfer corff, dillad, iechyd, dyledion tanwydd, budd-daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol, cyngor ar ynni a manylion y cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref.

Mae pob awdurdod iechyd yng Nghymru yn cefnogi'r cynlluniau hyn a chynlluniau eraill lleol.

## Hybu Iechyd

**Nick Bourne:** Faint gafodd ei wario ar hybu iechyd yng Nghymru yn 1995, 1996, 1997 a 1998? (WAQ1702VB)

**Jane Hutt:** Cyflwynir gwybodaeth am wariant hybu iechyd ym mlynyddoedd 1995 i 1998 yn y tabl isod:

**Gwariant ar hybu iechyd yng Nghymru, 1995-96 i 1998-99**

| | *£miliynau* |
|---|---|
| 1995-96 | 9.6 |
| 1996-97 | 9.1 |
| 1997-98 | 9.9 |
| 1998-99 | 9.8 |

*Ffynhonnell: Yn cynnwys ffigurau gwariant o gyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol Ymddiriedolaethau NHS, awdurdodau iechyd, Awdurdod Hybu Iechyd Cymru (rhaglenni hybu iechyd), awdurdodau gwasanaethau iechyd teulu ac awdurdodau iechyd dosbarth 1995-96 i 1998-99.*

Mae'r wybodaeth sydd ar gael wedi ei chyfyngu i wariant ar hybu iechyd o gyllidebau NHS. Argymhellodd yr adolygiad i drefniadau hybu iechyd yng Nghymru y dylid ymgymryd ag archwiliad i wariant hybu iechyd i ganfod llinell sylfaen am y buddsoddiad ar ffurf adnoddau a rhaglenni hybu iechyd gan yr NHS a llywodraeth leol. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu arf archwilio i'r diben hwn.

**Amseroedd Aros**

**Nick Bourne:** Faint o bobl yng Nghymru sydd yn aros i weld ymgynghorydd am fwy na 13 wythnos cyn cael mynd ar restr aros y mewngleifion a faint oedd yn aros ym mis Hydref 1997 a mis Hydref 1998? (WAQ1703VB)

**Jane Hutt:** Nid oes angen cyfeirio pob claf sydd yn mynd i glinig cleifion allanol ymlaen i'r rhestr aros fel mewnglaf neu glaf dydd. Mae cyfanswm y cleifion sydd yn disgwyl mwy na thri mis i weld ymgynghorydd i'w ganfod yn y tabl isod.

| **Nifer y trigolion o Gymru sydd yn disgwyl mwy na thri mis i weld ymgynghorydd** | |
|---|---|
| | **Nifer sydd yn Disgwyl** |
| Hydref 1997 | 36,583 |
| Hydref 1998 | 54,826 |
| Awst 1999 | 67,893 |

Mae'r Cynulliad wedi cyllido dau adolygiad i'r modd y rheolir cleifion allanol er mwyn canfod yr ystyriaethau sydd yn berthnasol i wella rheolaeth clinigau cleifion allanol, gostwng yr amserau aros a gwella'r ddealltwriaeth o restrau aros cleifion allanol a'r modd y'u rheolir. Mae canllawiau i egluro sut mae ymddiriedolaethau yn cynnal eu hadolygiadau eu hunain yn cael eu llunio ar hyn o bryd a chânt eu cyflwyno i'r NHS yn ddiweddarach yn 1999-2000.

**Ysbyty Abergele**

**Nick Bourne** A yw Jane Hutt wedi derbyn sylwadau am ddyfodol Ysbyty Abergele, gogledd Cymru, ac a yw hi am gyhoeddi'r sylwadau hyn? (WAQ1704VB)

**Jane Hutt:** Mater i Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yw dyfodol Ysbyty Abergele. Mae'r Cynulliad wedi derbyn sylwadau gan Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych, ar ffurf achos amlinellol strategol o blaid trosglwyddo gwasanaethau o Ysbyty Abergele i Ysbyty Glan Clwyd. Ni fwriadaf gyhoeddi'r ddogfen hon. Byddai'n rhaid i Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd ar gynigion i newid sylweddol yn y gwasanaethau yn Ysbyty Abergele.

## Chwaraeon

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i hyrwyddo chwaraeon ymhlith yr ifainc fel ffordd o gadw'n iach a heini? (WAQ1707VB

**Jane Hutt:** Mae cysylltiad rhwng lefelau isel o weithgarwch corfforol ag amrywiaeth o glefydau gan gynnwys clefyd coronaidd ar y galon, canserau, clefyd siwgr mellitus nad yw'n ddibynnol ar inswlin, bod yn rhy dew a thrwm, gordyndra, osteoporosis, asthma a iechyd gwael yn seicolegol. Dim ond chwarter oedolion Cymru sydd ar hyn o bryd yn cyrraedd y lefelau gweithgarwch a argymhellir er mwyn cadw'n iach. Mae annog plant i ymarfer yn bwysig er mwyn sefydlu arferion a fydd yn parhau gydol eu hoes, gan sicrhau drwy hynny fod y lefelau gweithgarwch hyn a argymhellir yn cael eu cyflawni. Dengys ymchwil bod y rhan fwyaf o blant yn mwynhau chwaraeon neu ryw fath o ymarfer corff a bod niferoedd cynyddol yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu'n ymuno â chlybiau chwaraeon. Cyngor Chwaraeon Cymru yw'r corff cenedlaethol sydd yn gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon ac adloniant yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Chwaraeon, ac yn darparu cefnogaeth gyllido i weithgareddau craidd y Cyngor. Mae strategaeth gyfredol y Cyngor, 'Pobl Ieuainc yn Gyntaf', yn targedu pobl ifainc yn benodol, ceir ynddi dargedau clir o ran y lefelau cymryd rhan i wahanol grwpiau oedran ac mae'n cyflwyno ystod o gynlluniau a gynlluniwyd yn benodol i annog plant i gymryd rhan. Cynlluniau a noddir gan y loteri sydd wedi eu hanelu at y grwpiau oedran dan 11 a than 16/18 yw Chwaraeon y Ddraig a Clwb Cymru, yn eu tro. Grantiau datblygu chwaraeon lleol yw'r prif beirianwaith a ddefnyddir gan y Cyngor i gefnogi a noddi datblygiadau a fwriedir i gynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd i bobl ifainc. I blant sydd am symud ymlaen i lefel uwch mae yna ganolfannau datblygu lleol a chanolfannau rhagoriaeth rhanbarthol. Anfonwyd copi o'r strategaeth 'Pobl Ifainc yn Gyntaf' at yr holl Aelodau ym mis Mai 1999 ac mae hefyd ar gael yn y Llyfrgell.

## Ambiwlans Awyr

**Nick Bourne:** Faint o ddefnydd y mae Jane Hutt yn ei ragweld gaiff ei wneud o'r ambiwlans awyr yng Nghymru yn y flwyddyn 2000? (WAQ1708VB)

**Jane Hutt:** O dan drefniant blaenorol, mae'r heddluoedd rhanbarthol, yr Awyrlu Brenhinol a Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Gorllewin Canolbarth Lloegr ar hyn o bryd yn ymateb i oddeutu dwy alwad bob wythnos ar hyd a lled Cymru ar ran Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Os llwydda'r Ymddiriedolaeth i sefydlu ei hambiwlans awyr ei hun yn ystod 2000, byddwn yn rhagweld lefel debyg o ddefnydd y flwyddyn honno, i'w rhannu rhwng yr ambiwlans awyr newydd a'r asiantaethau allanol hyn sydd yn gweithredu'n barod.

## *Taxol*

**Lynne Neagle:** Pa awdurdodau iechyd sydd yn ariannu'r defnydd o'r cyffur *taxol* ar gyfer canser yr ofari? (WAQ1756VB)

**Jane Hutt:** Mae pob awdurdod iechyd yng Nghymru yn ariannu'r defnydd o'r cyffur *taxol* ar gyfer canser yr ofari. Ar 25 Hydref, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a minnau ar y cyd ein bod yn gofyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol roi blaenoriaeth i'w waith ar ganser ac i gyflwyno ei werthusiad o'r cyffuriau hyn.

## Camddefnyddio Toddyddion, Cyffuriau ac Alcohol

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i rwystro pobl ifanc rhag camddefnyddio toddyddion? (WAQ1757VB)

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i rwystro pobl ifanc rhag camddefnyddio cyffuriau? (WAQ1758VB)

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerir i rwystro pobl ifanc rhag camddefnyddio alcohol? (WAQ1759VB)

**Jane Hutt:** Un o amcanion allweddol 'Ymlaen gyda'n Gilydd', strategaeth cyffuriau ac alcohol Cymru, yw atal camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, gan gynnwys toddyddion, yn enwedig ymysg pobl ifainc. I gefnogi'r nod hwnnw, cyhoeddwyd cynllun gweithredu strategol ar atal cyffuriau ac alcohol yng Nghymru yn 1997. Argymhellai'r ddogfen hon weithgareddau atal gan ystod eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ar lefel leol a chenedlaethol; tynnai sylw at y rhesymeg o'u plaid; a nodai'r angen i godi ymwybyddiaeth o effeithiau cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill. Mae detholiad o adnoddau atal sydd wedi eu hanelu at oedrannau penodol wedi eu datblygu a'u dosbarthu yng Nghymru i gefnogi'r cynllun strategol. Mae strategaeth â ffocws newydd i Gymru ar gamddefnyddio sylweddau yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yng ngoleuni strategaeth newydd y DU yn erbyn cyffuriau. Fel sydd yn wir am 'Ymlaen gyda'n Gilydd', bydd y strategaeth i Gymru ar ei newydd wedd yn canolbwyntio ar atal unrhyw gamddefnyddio—perswadio pobl i beidio â dechrau—ond ochr yn ochr â hynny ceir camau gweithredu i roi'r hwb i bobl i ddechrau rhoi'r gorau i'w harfer. Bydd yn rhoi'r un pwyslais ar blant a phobl ifainc a bydd yn ymdrin â chyffuriau, alcohol a thoddyddion.

## Asiantaethau Gwirfoddol (Gofal i'r Henoed)

**Owen John Thomas:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar rôl asiantaethau gwirfoddol wrth ddarparu gofal a thriniaeth i'r henoed a pha gamau sydd ganddi i hybu gweithgareddau asiantaethau gwirfoddol? (WAQ1832VB)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn cydnabod fod grwpiau gwirfoddol yn chwarae rôl hollbwysig yn darparu gwasanaethau gofalu a thrin yr henoed. Ymysg eu cryfderau mae eu gallu i arloesi, eu hyblygrwydd a'u hagosrwydd at y rheini sydd ag angen y gwasanaethau. Lle bu'r sector gwirfoddol yn gweithredu yn y gorffennol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth, bellach mae'n digwydd yn amlach ac amlach fod eu gwasanaethau yn cael eu darparu o fewn cytundebau dan gontract. Ar hyn o bryd mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ariannu tri chorff gwirfoddol yr henoed a dau gorff cynhalwyr. Maent hwythau yn eu tro yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i ddatblygu a hyrwyddo polisi. Hyrwyddir eu gwaith gan y Cynulliad nid yn unig ar ffurf y gefnogaeth ariannol a roddir gennym ond hefyd drwy ymgynghori ac ymwneud rheolaidd gyda'r grwpiau hyn. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'r cyrff hyn ac eraill ac i'w cynnwys. Yr ydym yn ceisio llunio partneriaeth wirioneddol gyda'r sector gwirfoddol drwy'r cytundeb, Cynllun y Sector Gwirfoddol a'n cynnig i sefydlu Cyngor Partneriaeth ar gyfer y Sector Gwirfoddol lle caiff holl rannau allweddol y sector gwirfoddol eu cynrychioli.

## Ymddiswyddiadau Llawfeddygon

**David Lloyd:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar yr amgylchiadau y tu ôl i ymddiswyddiadau dau lawfeddyg trawsblannu o Ysbyty Athrofaol Cymru yr wythnos hon? (WAQ1874VB)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae prinder llawfeddygon ymgynghorol mewn gwaith trawsblannu arennau ledled y DU. Mae'r ddau ymgynghorydd o Ysbyty Athrofaol Cymru wedi gadael i fynd i swyddi uchel yn rhywle arall. Cynhaliodd Swyddogion y Cynulliad gyfarfod gydag Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru a Llandochau, Comisiwn Gwasanaethau

Iechyd Arbenigol Cymru ac Awdurdod Iechyd Bro Taf yn ddiweddar i drafod camau gweithredu i ddenu unigolion addas yn eu lle a'r pryderon a godwyd yngl n â'r cyfleusterau sydd ar gael i gleifion trawsblannu. Nid yw'r gwasanaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru mewn perygl ar hyn o bryd a dylai fod yn bosibl parhau i drawsblannu arennau yng Nghymru gyda'r ymgynghorwyr sydd ar ôl. Cefais sicrwydd bod pob ochr yn ymroi'n llwyr i gadw'r gwasanaeth hwn i fynd a bod camau'n cael eu cymryd ar frys i fynd i'r afael â'r sefyllfa o ran y dyfodol agos ac yn y tymor hwy. Yr wyf wedi gofyn am gael fy hysbysu o unrhyw ddatblygiadau.

### Cyfrifoldeb am Bolisi Canser

**David Lloyd:** Yn sgîl penodi'r Athro Mike Richards fel y 'Pennaeth Canser' newydd gyda chyfrifoldeb am bolisi canser yn Lloegr, a yw Jane Hutt yn gwybod am unrhyw gynlluniau i benodi rhywun tebyg yng Nghymru? (WAQ1875VB)

**Jane Hutt:** Ni fyddai hynny'n briodol am fod gan Gymru Grŵp Cydlynu Gwasanaethau Canser effeithiol, dan arweiniad Fiona Peel, sydd yn atebol i'r Cynulliad. Mae'r Grŵp yn darparu peirianwaith cadarn i sicrhau bod y gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad Cameron ar Wasanaethau Canser yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 1996, yn mynd yn ei flaen mewn ffordd gydlynus a chynhwysol gyda chyfraniad byw a chefnogaeth clinigwyr, rheolwyr a chleifion ledled Cymru.

### Bwydydd a Addaswyd yn Enetig

**Jocelyn Davies:** A yw Jane Hutt wedi darllen adroddiad Dr Pusytin a Dr Ewen ar ba mor ddiogel yw bwydydd a addaswyd yn enetig? (WAQ1945JS)

**Jane Hutt:** Cafodd adroddiad gan Dr Arpad Pusztai ar ba mor ddiogel yw tatws sydd wedi eu haddasu'n enetig sylw eang yn y wasg fis Hydref diwethaf cyn i'r adroddiad gael ei gloriannu'n wyddonol gan gydwyddonwyr na'i gyhoeddi. Cyhoeddwyd yr ohebiaeth a ddeilliodd o hynny rhwng Dr Pusztai a Dr Ewens a'r Gymdeithas Frenhinol yn y *Lancet*. Nid wyf wedi darllen yr adroddiad gan ei fod erbyn hyn wedi ei adolygu gan gydwyddonwyr ar ran y Gymdeithas Frenhinol, y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd a'r Pwyllgor ar Wenwyndra. Daeth y tri i'r casgliad bod cynllun yr astudiaeth yn annigonol ac nad yw'r canlyniadau yn cefnogi'r honiad bod bwydydd a addaswyd yn enetig yn anniogel.

### Adolygiadau Cyflog Staff yr NHS

**Elin Jones:** Ar ba gategorïau o staff yr NHS y cynhelir adolygiadau cyflog gan y Corff Adolygu Tâl a pha gategorïau sydd heb fod yn cael adolygiadau o'r fath? (WAQ1948JS)

**Jane Hutt:** Mae'r cyrff adolygu cyflogau ar hyn o bryd yn ymdrin â meddygon a deintyddion ysbyty a chymuned, meddygon teulu, nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol sydd yn gysylltiedig â meddygaeth. Ymdrinnir â holl staff arall yr NHS dan Gynghorau Whitley ar wahân.

### Canser yr Ysgyfaint

**David Lloyd:** O ystyried y cyhoeddiad diweddar bod £10 miliwn i'w wario ar drin canser yr ysgyfaint yn Lloegr, a wnaiff Jane Hutt ddatganiad yngl n ag unrhyw gynlluniau ar gyfer menter debyg yng Nghymru? (WAQ1949JS)

**Jane Hutt:** Yng Nghymru, mae gennym eisoes gyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau canser, fel y'i nodwyd yn Adroddiad Cameron, sydd yn cael ei roi ar waith. Mae arian ychwanegol yn cael ei ddarparu i lenwi bylchau allweddol yn y ddarpariaeth arbenigol, a fydd

yn cyfateb i £3.5m yn 1999-2000. Fel rhan o'n cynllun i wella ansawdd a mynediad i wasanaethau canser, yr ydym wedi sefydlu rhwydwaith treialon canser Cymru gyfan ar y cyd â'r Ymgyrch Ymchwil Canser, a gwasanaeth geneteg canser Cymru gyfan gyda Gwasanaeth Lliniaru Canser Macmillan. Mae cynlluniau ar y gweill eisoes i sicrhau bod y £9.75m a ddaw i Gymru o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael ei wario'n ddoeth. Yr wyf wedi gofyn i'r awdurdodau iechyd yng Nghymru weithio gyda'i gilydd a sicrhau bod cymunedau lleol, y sector gwirfoddol a'r NHS yn cydweithredu i ddatblygu ffyrdd arloesol o wella gofal canser yng Nghymru.

**Ysgol Feddygol ar gyfer Abertawe**

**David Lloyd:** Pa sylwadau a dderbyniwyd ganddi ar fater ail ysgol feddygol ar gyfer Abertawe? (WAQ1950JS)

**Jane Hutt:** Yn ddiweddar derbyniais lythyr oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol feddygol yn Abertawe.

**Uned Hybu Iechyd**

**Kirsty Williams:** O gofio'r pwysau ariannol sydd ar gymaint o Awdurdodau Iechyd, sut bydd Jane Hutt yn sicrhau bod gwaith yr Uned Hybu Iechyd yn cael ei amddiffyn? (WAQ2032VB)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cymryd diddordeb manwl mewn camau gweithredu i hybu iechyd a lles ledled Cymru. Cydnabu'r 'Arolwg ar drefniadau hybu iechyd yng Nghymru' 1998 waith yr unedau hybu iechyd lleol, a sgiliau a phrofiad eu staff, yn hwyluso ac yn cefnogi gweithgaredd i hyrwyddo gwell iechyd. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion yn yr adolygiad i atgyfnerthu'r seilwaith a'r gallu i hybu iechyd ymhellach yng Nghymru. Mater i'r awdurdodau iechyd yw penderfynu, ar y cyd â'u partneriaid lleol, ar y ffordd orau o ddatblygu rôl staff hybu iechyd lleol a'u defnyddio yn gefn i strategaethau lleol a chenedlaethol i wella iechyd. Bydd cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad, sef un o argymhellion yr adolygiad, yn rhoi ffordd o fonitro datblygiadau a chanlyniadau cynlluniau gweithredu a roddir ar waith i hybu iechyd a lles.